Cefnogaeth i ddinasyddion Prydeinig dramor: Canllaw

Foreign & Commonwealth Office

www.fco.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	2
Crynodeb	4
Pwy allwn ni ei helpu?	7
Cadw'n ddiogel dramor	9
Os bydd rhywbeth yn digwydd i chi	15
Beth os bydd rhywbeth yn digwydd i berthynas neu bartner	20
Os effeithir arnoch gan ymosodiad terfysgol neu drychineb mawr	24
Darparu'r gefnogaeth orau a allwn	26
Atodiad	28

Rhagair

Mae cynorthwyo dinasyddion Prydeinig mewn anhawster dramor yn rhan hollbwysig o waith y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO). Gyda 12 miliwn o ddinasyddion Prydeinig yn byw dramor a 60 miliwn o deithiau tramor yn digwydd bob blwyddyn, rydym yn gweithio'n barhaus i ddatblygu a gwella'r gefnogaeth a ddarparwn.

Fel rhan o hyn, rydym yn canolbwyntio fwyfwy ar gynorthwyo pobl i baratoi cyn eu bod yn teithio. Bod yn hyddysg a pharod yw'r cam cyntaf at fwynhau taith ddiogel ac ymlaciol, a dyna pam yr ydym wrth ein bodd bod oddeutu naw miliwn o bobl yn awr yn darllen ein tudalennau cyngor ynghylch teithio ar ein gwefan bob blwyddyn. Rydym hefyd yn codi ymwybyddiaeth drwy ein hymgyrchoedd 'Know Before You Go' a gynhelir gyda'n partneriaid yn y diwydiant teithio. Bydd y canllaw hwn yn rhoi cyngor cyffredinol ar baratoi i deithio dramor.

Er bod paratoi yn allweddol, nid yw bob amser yn bosibl rhagweld nag atal pob peth all digwydd. Felly, os cewch anhawster mae angen i chi wybod ble i gysylltu â ni a sut gallwn gynorthwyo. Mae'r canllaw hwn yn rhoi'r wybodaeth hollbwysig honno.

Mae staff yr FCO yn gweithio 24 awr y dydd drwy'r flwyddyn i ddarparu cymorth o safon uchel i gynorthwyo cyhoedd Prydain ledled y byd. Y llynedd gwnaethant helpu bron 35,000 o bobl mewn cyfyngderau difrifol, yn cynnwys 4,000 o bobl yn yr ysbyty oherwydd anaf neu salwch. Cânt hefyd brofiad dyddiol o ddelio â phroblemau mwy cyffredin, megis colli pasbort.

Rydym wedi ymrwymo i wella ansawdd ein gwasanaeth, a byddem yn croesawu sylwadau am eich profiad o'r gefnogaeth a dderbyniwyd gennych.

Dymunwn deithiau sy'n ddiogel ac yn bleserus i chi.

David Miliband
Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad

Gillian Merron
Gweinidog Polisi Consylaidd

Gwefan: **www.fco.gov.uk/travel**
E-bost: feedback.consular.services@fco.gov.uk

Mae ein cyhoeddiadau yn cynnwys:

Checklist for travellers (Rhestr wirio i deithwyr)

Death overseas (Marw dramor)

Disabled travellers (Teithwyr anabl)

Going to live abroad (Symud dramor i fyw)

Guide for bereaved families (Canllawiau i deuluoedd mewn profedigaeth)

In prison abroad (Yn y carchar dramor)

International parental child abduction (Cipio plant gan rieni yn rhyngwladol)

Child abduction and the UK-Pakistan protocol (Cipio plant a'r protocol DU-Pacistan)

Missing persons abroad (Personau coll dramor)

Rape and sexual assault overseas (Treisio ac ymosodiadau rhywiol dramor)

Transfers home for prisoners abroad (Trosglwyddiadau adref i garcharorion dramor)

Victims of crime abroad (Dioddefwyr trosedd dramor)

Crynodeb

Mae'r crynodeb hwn yn dangos rhai o'r prif ffyrdd y gallwch eich helpu eich hun i aros yn ddiogel dramor a pha gymorth y gallwn ei ddarparu os byddwch yn mynd i drafferth.

Aros yn ddiogel dramor

- Edrychwch ar ein gwefan deithio yn **www.fco.gov.uk/travel** neu ffoniwch 0845 850 2829. Cadwch lygad ar adroddiadau newyddion am unrhyw broblemau yn yr ardal rydych yn ymweld â hi. (Gweler tudalen 9.)
- Trefnwch yswiriant teithio llawn neu gynllun iechyd tramor. Os na fyddwch yn trefnu yswiriant priodol, fel arfer bydd yn rhaid i chi eich hun dalu costau unrhyw argyfwng, gan gynnwys biliau meddygol costus. Os dewiswch fynd i wlad yn groes i'n cyngor ynghylch teithio, gallai hyn gyfyngu'n fawr ar y cymorth y gallwn ei roi a gall hefyd olygu na fydd eich yswiriant teithio yn ddilys. (Gweler tudalen 9.)
- leiaf chwe wythnos cyn mynd, holwch eich meddyg i weld pa frechiadau a rhagofalon iechyd eraill sydd eu hangen ar gyfer eich taith. Ewch ag unrhyw foddion presgripsiwn gyda chi a'u cadw wrth law, yn ogystal â chopi o'r presgripsiwn. (Gweler tudalen 10.)
- Gwnewch yn siŵr fod eich pasport yn ddilys ac mewn cyflwr da, a bod gennych unrhyw fisas angenrheidiol. Llenwch fanylion eich perthynas agosaf yn eich pasport. (Gweler tudalen 10.)
- Defnyddiwch ein gwasanaeth cofrestru ar-lein i gofrestru manylion eich cynlluniau teithio chi a'ch teulu. Ewch i **www.fco.gov.uk** a chliciwch ar 'LOCATE' i gofrestru. (Gweler tudalen 10.)
- Gadewch gopïau o'ch pasport, polisi yswiriant (a rhif argyfwng 24 awr y cwmni yswiriant), manylion tocynnau, manylion eich taith a'ch manylion cysylltu gyda'ch teulu a'ch ffrindiau. (Gweler tudalen 10.)
- Ewch â digon o arian ar gyfer eich taith a rhywfaint o arian wrth gefn, fel sieciau teithio (mewn sterling neu ddoleri'r Unol Daleithiau) neu gardiau credyd. Cyn gadael, holwch sut gallwch gael sieciau teithio a chardiau credyd newydd os byddwch yn eu colli, a chadwch nodyn o'u rhifau ar wahân. (Gweler tudalen 11.)
- Cyn mynd, prynwch deithlyfr da a dod yn gyfarwydd â'r ardal lle'r ydych yn mynd. Dewch i wybod mwy am ddeddfau ac arferion lleol, a chofiwch gadw atynt. Byddwch yn ymwybodol o'ch diogelwch personol gan gymryd camau synhwyrol i'ch gwarchod eich hun. (Gweler tudalen 11.)

Pwy allwn ni ei helpu

Gallwn roi'r gefnogaeth a ddisgrifir yn y canllaw hwn i bobl y tu allan i'r DU sy'n:

- ddinasyddion Prydeinig (boed nhw'n byw yn y DU fel arfer ai peidio – ond gweler tudalen 7);
- dinasyddion Prydeinig gyda dinasyddiaeth arall (a elwir yn 'ddinasyddion deublyg' – gweler tudalen 7), er y bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau (gweler tudalen 7); a
- dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd neu, mewn rhai amgylchiadau, dinasyddion y Gymanwlad nad oes gan eu gwlad genhadaeth leol. (Gweler tudalen 7.)

Ni allwn roi'r gefnogaeth hon i ddinasyddion gwledydd eraill, hyd yn oed os ydynt o bosib wedi bod yn byw'n gyfreithlon yn y DU.

Pa fath o gymorth y gallwn ei roi

Rydym yn cynnig cymorth sy'n briodol ar gyfer amgylchiadau unigol pob achos, gan gynnwys:

- rhoi pasport newydd;
- rhoi gwybodaeth am drosglwyddo arian;
- rhoi cymorth priodol os cawsoch eich treisio neu os ydych wedi dioddef ymosodiad difrifol, wedi dioddef trosedd arall, neu os ydych yn sâl neu yn yr ysbyty;
- rhoi manylion cyfreithwyr, cyfieithwyr, meddygon a threfnwyr angladdau lleol;
- gwneud popeth priodol o fewn ein gallu i gysylltu â chi o fewn 24 awr ar ôl cael gwybod eich bod yn y ddalfa;

- cynnig cefnogaeth a chymorth gydag amryw o achosion eraill, er enghraifft cipio plant, perthnasau yn marw dramor, pobl ar goll a herwgipio;
- cysylltu â theulu neu ffrindiau ar eich rhan os ydych yn dymuno; a
- gwneud trefniadau arbennig mewn achosion o derfysgaeth, aflonyddwch sifil neu drychinebau naturiol.

Ni allwn:

- ymyrryd mewn anghydfodau preifat ynglŷn ag eiddo, cyflogaeth, materion masnachol neu faterion eraill;
- eich rhyddhau o'r carchar, atal yr awdurdodau lleol rhag eich alltudio ar ôl eich dedfryd o garchar, nac ymyrryd mewn achosion llys troseddol neu sifil;
- eich helpu i gael mynediad i wlad, er enghraifft, os nad oes gennych fisa neu os nad yw eich pasport yn ddilys, gan na allwn ymyrryd gyda pholisïau neu drefniadau mewnfudo gwlad arall;
- rhoi cyngor cyfreithiol i chi, ymchwilio i droseddau na chwilio am bobl ar goll, er y gallwn roi manylion pobl a allai eich helpu gydag achosion o'r fath, er enghraifft cyfreithwyr sy'n siarad Saesneg;
- cael gwell triniaeth i chi yn yr ysbyty nag a roddir i bobl leol;
- cael gwell triniaeth i chi mewn carchar nag a roddir i garcharorion lleol, er y gallwn fynegi pryderon gydag awdurdodau lleol os bydd y driniaeth yn disgyn yn is na'r safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol;
- talu unrhyw filiau neu roi arian i chi o gronfeydd cyhoeddus
- talu unrhyw filiau na rhoi arian i chi (dan amgylchiadau eithriadol iawn mae'n bosib y gallwn roi benthyg arian i chi, o arian cyhoeddus, a bydd raid i chi dalu'r arian yn ôl);
- gwneud trefniadau teithio i chi, na dod o hyd i waith neu lety i chi; na
- gwneud trefniadau busnes ar eich rhan.
- gwneud yn siŵr y byddwch yn ddiogel mewn gwlad arall – mae diogelwch a diogeliad yn faterion i'r llywodraeth dan sylw; neu
- darparu iawndal os effeithir arnoch gan drychineb fawr neu ymosodiad terfysgol.

Trychinebau mawr

Mae'n bosib y bydd rhai trychinebau mawr sy'n effeithio ar ddinasyddion Prydeinig dramor yn galw am ymateb y tu hwnt i'r hyn a geir yn y canllaw hwn, fel y nodir ar dudalennau 24 a 25. Nid yw'n hawdd diffinio'r holl amgylchiadau posib, ond fe allai'r pethau hyn ddigwydd o ganlyniad i drychinebau naturiol neu ddamweiniau ar raddfa fawr, neu derfysgaeth neu wrthdaro. Ni fydd unrhyw set unigol o ymatebion yn bodloni pob amgylchiad.

Os bydd yr Ysgrifennydd Tramor o'r farn bod digwyddiad yn drychineb mawr sy'n effeithio ar niferoedd sylweddol o bobl y gallwn eu helpu, fe fyddwn yn:

- ystyried yn fuan iawn a ddylid darparu cymorth eithriadol gydag arian cyhoeddus;
- trefnu canolfan argyfwng i'r cyhoedd adrodd ar eu pryderon ynglŷn â ffrindiau a theulu dros y ffôn neu drwy ffurflen ar-lein ar ein gwefan (**www.fco.gov.uk**);
- darparu gwybodaeth os bydd gennym, ac os teimlwn ei bod yn ddibynadwy, i bobl sydd wedi eu heffeithio arnynt ac aelodau eu teuluoedd yr ydym mewn cysylltiad â hwy
- ystyried anfon staff ychwanegol priodol i'r wlad dan sylw.

Ein gwerthoedd

Rydym yn gosod safonau uchel ar gyfer y gefnogaeth y gallwn ei chynnig. Wrth gynnig cefnogaeth i chi, fe fyddwn yn:

- gwrtais, cynorthwyol a phroffesiynol;
- ateb ymholiadau consylaidd yn bersonol, drwy lythyr neu dros y ffôn mor gyflym ac mor effeithlon ag y gallwn;
- egluro'n glir, o'r dechrau, pa gymorth allwn ni ei roi a phryd efallai y bydd angen i chi gael cymorth gan eraill;
- gwneud yn siŵr bod trefniadau priodol ar gael i ateb galwadau gwir argyfyngus y tu allan i oriau arferol y swyddfa, yn Llundain a thramor;
- cadw eich gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol (gweler nodyn 1 isod);

- gwneud yn siŵr bod ein cymorth ar gael a hynny'n gyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, oedran, lliw, rhywioldeb, anabledd neu grefydd;
- dysgu gwersi os aiff pethau o'i le neu o ganlyniad i sylwadau defnyddiol; a
- delio â chwynion yn llawn ac yn deg.

Fe ddylech chi:

- drin ein staff â pharch (os byddwch yn ymosodol yn gorfforol neu ar lafar, mae'n bosib y byddwn yn gwrthod parhau i'ch helpu);
- bod ag yswiriant teithio llawn, neu ofal iechyd ac unrhyw yswiriant priodol arall os ydych yn byw neu'n teithio dramor;
- bod wedi paratoi cyn teithio, er enghraifft, pacio moddion (gweler tudalen 10), cael unrhyw frechiadau angenrheidiol, a gadael manylion eich taith gyda'ch teulu neu'ch ffrindiau;
- bod wedi ymchwilio i'r ardal lle'r ydych yn mynd, gan gynnwys edrych ar ein gwefan deithio **(www.fco.gov.uk/travel)**;
- cadw at y deddfau lleol;
- dilyn cyngor lleol ynghylch yr hyn sy'n ddiogel neu'n anniogel, a chadw at y cyngor hwn;
- osgoi risgiau dianghenraid a gofalu am eich dogfennau teithio a'ch arian; a
- bod yn barod i dalu am rai mathau o gefnogaeth gonsylaidd, er enghraifft, cyflwyno dogfen deithio argyfwng (nid ydym yn gwneud elw ar y taliadau hyn, fe'u gwnawn dim ond i dalu costau darparu gwasanaethau consylaidd.)

Nodyn 1:
Rydym yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Efallai y byddwn yn rhyddhau gwybodaeth bersonol i adrannau eraill llywodraeth DU ac awdurdodau cyhoeddus.

Pan fydd ein gwaith ni ar ben

Rydym yn cynnig cefnogaeth i ddinasyddion Prydeinig dramor sydd mewn cyfyngder, ac i'w teuluoedd naill ai yn y DU neu yn rhywle arall, er mwyn delio ag **effeithiau uniongyrchol yr achos**. Mewn rhai achosion eithriadol, gall ein swyddogion fod ynghlwm mewn achos penodol am gyfnod hwy o amser. Er enghraifft, os bydd dinesydd Prydeinig yn marw mewn amgylchiadau amheus, fe roddwn i'r teulu yr holl wybodaeth a allwn y bydd yr awdurdodau ymchwilio lleol yn ei darparu am unrhyw ddatblygiadau yn yr achos. Ond weithiau bydd pobl angen cefnogaeth tymor hir mewn meysydd lle nad yw ein staff yn weithwyr proffesiynol hyfforddedig ynddynt, megis cefnogaeth gan gynghorwyr profedigaeth neu swyddogion ymchwiliol. Er na allwn ddarparu'r cymorth tymor hir hwn neu gymorth tymor hir tebyg ein hunain, gallwn awgrymu lle gallwch fynd am gyngor. Gallai hyn olygu mynd at adran arall llywodraeth y DU, megis yr Uned Cymorth Dyngarol yn yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (gweler tudalen 25). Neu gallai olygu cysylltu â sefydliad anllywodraethol neu elusen.

Nodiadau pwysig

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r cymorth rydym yn ceisio'i roi i ddinasyddion Prydeinig sy'n wynebu anhawster dramor. **Nid yw'n trafod gwaith arall ein staff, fel gwasanaethau statudol (cofrestru marwolaethau a genedigaethau) na chyflwyno pasports Prydeinig dramor. Mae mwy o wybodaeth am y gwasanaethau hyn ar ein gwefan yn www.fco.gov.uk.**

Rydym yn darparu'r gefnogaeth a ddisgrifir yn y canllaw hwn mewn bron i 200 o wledydd ledled y byd, a hynny mewn amgylchiadau gwahanol ac anodd ar brydiau. Gall ffactorau lleol, megis diogelwch, y gyfraith, cludiant, cyfleusterau meddygol a chysylltiadau â'r awdurdodau lleol, yn ogystal ag amgylchiadau pob achos unigol a'r adnoddau sydd ar gael, i gyd effeithio ar y cymorth y gallwn ei ddarparu.

Yn yr un modd, mae'n bosib y bydd yna rai achosion – er enghraifft, trychineb naturiol – ble na fyddwn yn gallu darparu'r mathau arferol o gymorth. Ac, fel unrhyw adran o'r llywodraeth, mae'n gyfrifoldeb arnom i ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithlon ac effeithiol.

Os na fyddwch yn fodlon â'r gefnogaeth a roddwyd gennym, fe allwch chi wneud cwyn (gweler tudalen 27).

Pwy allwn ni ei helpu?

Fe allwn eich helpu os ydych un ai'n teithio neu'n byw dramor a'ch bod yn ddinesydd Prydeinig.

Rydych yn ddinesydd Prydeinig os ydych yn un o'r canlynol.

- Dinesydd (citizen) Prydeinig
- Dinesydd (citizen) Tiriogaethau Tramor Prydeinig (gweler nodyn 1 isod)
- Dinesydd (citizen) tramor Prydeinig
- Dinesydd Prydeinig (tramor) (gweler nodyn 2 isod)
- Deiliad Prydeinig
- Person Prydeinig a ddiogelir

Gweler atodiad A am ddiffiniadau'r holl gategorïau hyn.

Ni allwn helpu pobl sy ddim yn ddinasyddion Prydeinig, ni waeth am faint y buont yn byw yn y DU na beth yw eu cysylltiadau â'r DU. Yr unig eithriad i'r rheol hon yw ble mae cytundeb penodol yn bodoli gyda gwladwriaeth arall, er enghraifft, y cytundeb rhwng aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd i helpu dinasyddion o'r UE sydd heb lysgenhadaeth neu swyddfa is-gennad yn lleol. Mae'n bosib hefyd y byddwn yn helpu dinasyddion y Gymanwlad mewn gwledydd y tu allan i'r Gymanwlad ble nad oes ganddynt unrhyw gynrychiolaeth ddiplomyddol na chonsylaidd, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Beth am ddinasyddion deublyg?

Os oes gennych ryw gysylltiad â gwladwriaeth dramor neu'r Gymanwlad, er enghraifft, trwy enedigaeth, trwy dras y naill riant neu'r llall, trwy briodas neu drwy breswyliad, fe allech chi fod yn ddinesydd y wladwriaeth honno yn ogystal â bod yn ddinesydd Prydeinig. Holwch awdurdodau unrhyw wladwriaeth arall y mae gennych gysylltiad â hi.

Mae'n bosib y bydd gennych rai cyfrifoldebau o ran y wladwriaeth honno, fel gwasanaeth milwrol gorfodol. Mae'n bosib na fydd dod yn ddinesydd Prydeinig yn achosi i chi golli eich dinasyddiaeth wreiddiol.

Os ydych yn ddinesydd deublyg sy'n teithio ar eich pasport Prydeinig mewn trydedd wladwriaeth (hynny yw, gwlad nad ydych yn ddinesydd ohoni), fe fyddwn yn cynnig ein cefnogaeth lawn i chi. Os ydych yn teithio ar basport eich dinasyddiaeth arall, fel arfer fe fyddwn yn eich cyfeirio at Lysgenhadaeth, Uchel Gomisiwn neu Swyddfa Is-gennad leol y wladwriaeth honno. Felly, er enghraifft, os ydych yn ddinesydd deublyg Americanaidd-Prydeinig sy'n teithio yn Ffrainc a'ch bod wedi defnyddio pasport yr Unol Daleithiau wrth gyrraedd Ffrainc, yna fel arfer fe fyddem yn eich cyfeirio at y Llysgenhadaeth neu'r Swyddfa Is-gennad Americanaidd agosaf am help. Mae'n bosib y byddwn yn gwneud eithriad i'r rheol hon, ar ôl edrych ar amgylchiadau'r achos, os ystyriwn fod rheswm dyngarol arbennig dros wneud hynny.

Os ydych yn ddinesydd Prydeinig deublyg yng ngwladwriaeth eich dinasyddiaeth arall (er enghraifft, dinesydd deublyg Americanaidd-Prydeinig yn yr Unol Daleithiau), ni fyddem fel arfer yn cynnig cefnogaeth i chi nac yn ymyrryd â'r ymwneud rhyngoch ac awdurdodau'r wladwriaeth honno. Mae'n bosib y gwnawn eithriad i'r rheol hon, ar ôl edrych ar amgylchiadau'r achos, os ystyriwn fod rheswm dyngarol arbennig dros wneud hynny. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys achosion yn ymwneud â phlant dan oed, priodasau dan orfod neu drosedd sy'n arwain at y gosb eithaf. Fodd bynnag, bydd y cymorth y gallwn ei roi yn dibynnu ar yr amgylchiadau a bod gwladwriaeth eich dinasyddiaeth arall yn cytuno iddo.

Nodyn 1:
Oherwydd bod Tiriogaethau Tramor Prydain yn 'feddiannau'r Goron' dan sofraniaeth Prydain, dylai dinasyddion Prydeinig gysylltu â'r awdurdodau lleol os ydynt mewn trafferth yn y Tiriogaethau hyn. Byddwn yn rhoi'r un cymorth i ddinasyddion (citizens) Tiriogaethau Tramor Prydain sy'n byw neu'n teithio y tu allan i'r Diriogaeth Dramor ag a wnawn i unrhyw ddinesydd Prydeinig arall sydd mewn trafferth.

Nodyn 2:
Ni allwn helpu dinasyddion Prydeinig (tramor) o darddiad ethnig Tsieineaidd yn Tsieina, Hong Kong a Rhanbarthau Gweinyddol Arbennig Macao. Bydd awdurdodau Tsieina yn ystyried dinasyddion Prydeinig (tramor) o darddiad ethnig Tsieineaidd yn ddinasyddion Tsieineaidd, ac nid oes gennym rym i ymyrryd os cânt eu dal ar dir mawr Tsieina. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi'r un cymorth i bob dinesydd Prydeinig (tramor) sy'n byw neu'n teithio y tu allan i Tsieina, Hong Kong a Macao ag a wnawn i unrhyw ddinesydd Prydeinig arall sydd mewn trafferth.

Ble mae dod o hyd i ni

Bydd cefnogaeth ar gael gan **genadaethau diplomyddol neu gonsylaidd Prydeinig dramor** a chan **Gyfarwyddiaeth Gonsylaidd** y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn Llundain.

Cenadaethau diplomyddol Prydeinig dramor yw prif swyddfeydd Llywodraeth Prydain mewn gwledydd eraill, mewn prifddinasoedd fel arfer. Bydd y cenadaethau hyn ar ffurf Uchel Gomisiynau Prydeinig neu Ddirprwy Uchel Gomisiynau yng ngwledydd y Gymanwlad a Llysgenhadon Prydeinig mewn gwledydd eraill. Bydd staff consylaidd Prydain yn gweithio yn y swyddfeydd hyn neu weithiau mewn adeiladau ar wahân o'r enw Swyddfeydd Is-genhadon Cyffredinol neu Swyddfeydd Is-genhadon mewn prifddinasoedd neu ganolfannau rhanbarthol. Mewn rhai mannau lle nad oes presenoldeb diplomyddol na chonsylaidd Prydeinig, mae gennym rwydweithiau o Is-genhadon Anrhydeddus sy'n gallu cynnig peth cymorth cyfyngedig neu eich rhoi mewn cysylltiad â'r genhadaeth Brydeinig agosaf. **Yng ngweddill y ddogfen hon, rydym wedi defnyddio 'Llysgenhadaeth, Uchel Gomisiwn neu Swyddfa Is-gennad Prydain' i olygu'r holl genadaethau Prydeinig dramor.**

Os bydd arnoch angen help mewn gwlad lle nad oes cenhadaeth ddiplomyddol neu gonsylaidd Brydeinig, fe allwch dderbyn cymorth gan genhadaeth ddiplomyddol neu gonsylaidd aelod arall o'r Undeb Ewropeaidd. Y mae yna drefniadau anffurfiol gyda rhai gwledydd eraill hefyd, gan gynnwys Seland Newydd ac Awstralia, i helpu dinasyddion Prydeinig mewn rhai gwledydd. Os bydd gwledydd eraill yn rhoi cymorth ar ein rhan, fe ddylech dderbyn yr un lefel o gymorth ag y bydden nhw'n ei rhoi i'w dinasyddion eu hunain.

Mae rhestr o genadaethau Prydeinig dramor ar ein gwefan yn **www.fco.gov.uk**.

Ein dyletswydd gofal i'n staff

Fel unrhyw sefydliad, mae gennym ddyletswydd gofal i'n gweithwyr. **Ni fyddwn yn anfon staff i sefyllfa ble byddwn yn barnu y gallai eu diogelwch fod mewn perygl difrifol.**

Bydd ar lawer o bobl angen ein cefnogaeth ar adeg pan fyddant mewn trafferthion neu bryder personol mawr eu hunain. Fe fydd ein staff bob amser yn ceisio bod yn sensitif a rhoi cymaint o gymorth â phosib. Cofiwch y gallai'r staff fod yn delio â nifer o achosion anodd ar unrhyw adeg benodol. Cofiwch hefyd na all ein staff gymryd lle ymgynghorwyr arbenigol fel cynghorwyr neu gyfreithwyr.

Dylech drin ein staff yn deg ac â pharch. Os byddwch yn ymosodol yn gorfforol neu ar lafar, mae gan ein staff hawl i wrthod parhau i'ch helpu.

Cadw'n ddiogel dramor

Bydd dinasyddion Prydeinig yn mynd ar filiynau o deithiau tramor bob blwyddyn, a bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn hollol ddidrafferth. Ac, mae llawer o bobl Brydeinig yn mwynhau byw dramor. Ond, y tu allan i'r DU, mae'n bwysig cofio:

- rydych yn llai tebygol o fod yn gyfarwydd â chyfreithiau, amodau a pheryglon lleol;
- fe allech chi fod yn fwy agored i amryw o fygythiadau fel troseddau a sgamiau; ac
- mae'n bosib na fydd y gefnogaeth sydd ar gael am ddim yn y DU ar gael o gwbl, neu fe allai fod yn ddrud iawn.

Felly, er mwyn cadw'n saff a diogel dramor, a bod yn barod rhag i bethau fynd o chwith, mae'n bwysig **cymryd ychydig o gamau syml cyn mynd a thra bo chi yno**. Dylent gynnwys y canlynol.

Cyn mynd

- **Rydym yn rhoi gwybodaeth** i helpu dinasyddion Prydeinig wneud penderfyniadau gwybodus am eu diogelwch dramor (gweler **www.fco.gov.uk/travel** neu ffoniwch 0845 850 2829). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am fygythiadau i ddiogelwch personol yn sgil aflonyddwch gwleidyddol, gwrthdaro, gweithgareddau terfysgol, gwrthdystiadau yn erbyn Prydain, anhrefn, trais, trychinebau naturiol, epidemigion, a diogelwch awyrennau a llongau. Fe fyddwn yn adolygu'r wybodaeth ar ein gwefan deithio ar gyfer pob gwlad bob mis a hefyd yn dilyn unrhyw ddigwyddiad o bwys. Fe fyddwn yn adolygu'r wybodaeth a'i hailgyflwyno unwaith bob tri mis o leiaf. Os bydd argyfwng yn datblygu, byddwn yn diweddaru'r wybodaeth yn llawer mwy rheolaidd ac, os bydd angen, sawl gwaith y dydd (gweler nodyn 1 isod). Ar ein gwefan deithio hefyd mae gwybodaeth gyffredinol bwysig am ddiogelwch dramor, dan y pennawd Staying safe and healthy abroad'. Cofiwch gadw llygad ar y newyddion hefyd, am adroddiadau ynghylch unrhyw broblemau mewn ardaloedd rydych yn bwriadu ymweld â nhw.
- Cofiwch wneud yn siŵr bob amser fod gennych **yswiriant teithio llawn**. Dylai unrhyw un sy'n teithio o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (gweler nodyn 2) neu'r Swistir hefyd gael **Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd am ddim** (EHIC) sy'n rhoi hawl i chi gael rhywfaint o ofal argyfwng am bris gostyngol neu am ddim – ond mae'n dal yn rhaid i chi gael yswiriant teithio. Gallwch wneud cais am EHIC yn swyddfeydd y post, dros y ffôn ar 0845 606 2030, neu ar lein yn **www.ehic.org.uk** neu **www.dh.gov.uk/travellers**. Os ydych yn mynd i fyw dramor, holwch a oes gan y DU drefniant nawdd cymdeithasol gyda'r wlad rydych yn bwriadu byw ynddi a pha wasanaethau sy'n cael eu cynnwys. I gael gwybod mwy, ewch i wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau (**www.dwp.gov.uk**). Oni bai fod eich cyflogwr yn darparu cynllun gofal iechyd, fe ddylech ystyried cynlluniau gofal iechyd preifat i dalu am driniaeth yn y wlad lle byddwch yn byw. Ni allwch ddisgwyl i arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio i dalu am bobl sydd heb drefnu yswiriant, boed chi'n mynd ar wyliau neu'n mynd i fyw dramor, a dylech gofio bod costau argyfwng meddygol dramor, er enghraifft, yn gallu bod yn ddrud iawn. Gweler **www.fco.gov.uk/tavel** am ragor o wybodaeth am yswiriant teithio.

Nodyn 1

Pwrpas ein cyngor ynghylch teithio yw darparu gwybodaeth a barn i helpu dinasyddion Prydeinig i lunio eu barn eu hunain am deithio i, neu weithio mewn, gwlad arbennig. Er ein bod yn cymryd gofal mawr wrth baratoi ein cyngor ynghylch teithio, ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb, yn cynnwys cyfrifoldeb cyfreithiol, os byddwch yn darllen y cyngor ynghylch teithio ac yn dewis rhoi ystyriaeth iddo, pan yn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â gwlad benodol. Ni all Llywodraeth y DU nac unrhyw swyddog consylaidd Prydeinig neu staff diplomataidd dramor dderbyn cyfrifoldeb am niwed, colled na difrod sy'n codi yn sgil unrhyw ddatganiad a geir yn eich cyngor ynghylch teithio.

- Gwnewch yn siŵr fod eich **yswiriant wedi'i ddiweddaru, a'i fod yn ddilys ar gyfer yr holl daith ac yn yswirio popeth a phawb** sy'n teithio. Edrychwch i weld beth yn union sy'n cael ei yswirio – er enghraifft, anaf personol o ganlyniad i weithgaredd terfysgol, yswiriant ar gyfer yr holl weithgareddau rydych eisiau eu gwneud (gan gynnwys unrhyw chwaraeon peryglus), eich holl fagiau ac offer, a chostau cyfreithiol. Edrychwch yn ofalus hefyd ar **eithriadau** y polisi yswiriant (nid yw rhai polisïau yn yswirio yn erbyn anafiadau personol o ganlyniad i weithgaredd terfysgol), gan gynnwys unrhyw rai sy'n ymwneud ag unrhyw **gyflwr meddygol sydd eisoes yn bodoli**, ac alcohol neu gyffuriau. Cofiwch ddweud wrth eich yswiriwr am unrhyw gyflwr meddygol sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys unrhyw afiechyd seiciatrig. Mae'n bosib na fydd y polisi'n ddilys os methwch wneud hyn, a bydd hyn yn golygu y bydd rhaid i chi neu eich teulu a'ch ffrindiau dalu am unrhyw driniaeth eich hun. Cofiwch fynd â rhif y polisi a'r rhif argyfwng 24 awr gyda chi.
- Gwnewch yn siwr eich bod wedi cael y **brechiadau diweddaraf** a chael gwybod am unrhyw **gyngor meddygol** arall sy'n cael ei awgrymu, trwy fynd i weld y sawl sy'n darparu gofal iechyd i chi. Cofiwch ddilyn y cyngor hwn a bod yn ymwybodol o risgiau posib i iechyd yn ystod eich taith. Gweler **www.dh.gov.uk, nathnac.org/travel** a **www.fitfortravel.scot.nhs.uk** am ragor o wybodaeth neu ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47. Paciwch ddigon o **gyflenwadau o unrhyw foddion** rydych yn eu cymryd yn eich bag llaw. Cariwch eich moddion yn y bocsys gwreiddiol ac ewch ag unrhyw ddogfennau presgripsiwn gyda chi. Mewn rhai gwledydd, gall moddion a roddwyd i chi dros y cownter yn rhywle arall fod yn anghyfreithlon. Holwch yn llysgenhadaeth agosaf y wlad lle'r ydych yn mynd (gallai fod yn Llundain neu mewn dinas Ewropeaidd arall) i weld a fydd eich moddion yn gyfreithlon yn y wlad honno a holwch a fydd angen i chi fynd â llythyr meddyg gyda chi. Gyda theithiau hir, ewch i weld eich deintydd a'ch optegydd cyn teithio.
- Llenwch y manylion cysylltu yng **nghefn eich pasport** ar gyfer dau berthynas neu ffrindiau y gellir cysylltu â nhw mewn argyfwng. Ar wahân i'ch pasport, ewch â dogfen adnabod arall gyda chi (gorau oll os yw eich llun arni, fel trwydded yrru).
- Cofrestrwch a diweddarwch eich manylion ar ein system cofrestru ar-lein, LOCATE, yn **www.fco.gov.uk** P'un ai ydych yn teithio neu'n byw dramor, mae'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn cadarnhau'n gyflym a ydych yn ddiogel, gan ganiatáu i ni ganolbwyntio ar gynnig cefnogaeth i'r bobl sydd â mwyaf o angen, yn cynnwys wedi unrhyw drychineb (gweler tudalen 24).
- Gwnewch yn siwr eich bod yn ymwybodol o **reolaeth mewnfudo a thollau** y wlad rydych yn teithio iddi, gan gynnwys unrhyw fisas angenrheidiol. Cofiwch, mewn llawer o wledydd, bod yn rhaid i'ch pasport fod yn ddilys am o leiaf chwe mis ar ôl eich dyddiad teithio. Dylech gysylltu â'r Swyddfa Is-gennad berthnasol yn Llundain i gael gwybodaeth am ofynion mewnfudo'r wlad yr ydych yn teithio iddi. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siwr fod y fisa cywir gennych er mwyn aros mewn gwlad arall. Os ydych yn cael trafferth mynd i mewn i wlad arall (er enghraifft os nad oes gennych fisa neu os nad yw eich pasport yn ddilys), ni fydd y staff swyddfa'r is-gennad yn gallu eich helpu i gael mynediad i'r wlad. Ni allant ymyrryd ym mholisi neu drefniadau mewnfudo gwlad arall. Gweler **www.ips.gov.uk/passport** neu ffoniwch 0870 521 0410 i gael gwybodaeth am sut i gael pasport.
- **Cofiwch ddweud wrth rywun ble'r ydych yn mynd** a phryd rydych yn disgwyl bod yn ôl. Gadewch gopi o'ch taith a manylion ble gallai fod yn bosib cysylltu â chi yn ystod eich cyfnod dramor. Gwnewch ddau gopi o'ch pasport hefyd (gan gynnwys tudalennau gyda fisas perthnasol), a'ch manylion yswiriant ac unrhyw ddogfennau teithio pwysig eraill. Gadewch un copi gartref gydag aelod o'ch teulu neu ffrind y gallwch ddibynnu arno/arni ac ewch ag un copi gyda chi, a'i bacio ar wahân i'ch pasport.

Nodyn 2:
Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys pob un o 27 aelod yr Undeb Ewropeaidd ynghyd â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

Nodyn 3:
Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys gwefannau sefydliadau eraill ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol am unrhyw wybodaeth y maent yn ei rhoi i chi.

- **Ewch â digon o arian** ar gyfer eich taith a rhywfaint o arian wrth gefn, fel sieciau teithio, rhywfaint o arian parod (sterling neu ddoleri'r Unol Daleithiau) neu gardiau credyd. Cyn gadael, gwnewch yn siwr fod eich cardiau yn ddilys, a holwch sut gallwch gael cardiau a sieciau teithio newydd os byddwch yn eu colli neu os cânt eu dwyn. Cadwch nodyn o'u rhifau ar wahân a'r rhif y byddai angen i chi ei ffonio i atal unrhyw gardiau credyd os byddwch yn eu colli neu os cânt eu dwyn.
- Prynwch deithlyfr sy'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol am ddeddfau ac arferion lleol. Siaradwch â'ch cwmni teithiau ynghylch risgiau posib.
- Os ydych yn bwriadu gyrru, cofiwch wneud yn siwr **bod trwydded yrru'r DU sy'n gyfredol a dilys gennych**. Gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod y deddfau gyrru, gofynion trwyddedu ac amodau gyrru yn y wlad rydych yn ymweld â hi. Mewn rhai gwledydd bydd raid i chi gael trwydded yrru ryngwladol yn ogystal â thrwydded y DU. Peidiwch byth ag yfed a gyrru. Cofiwch, mewn llawer o wledydd, bod dirwyon yn y fan a'r lle am dramgwyddau traffig. Am ragor o fanylion, gweler y dudalen 'Driving Abroad' ar ein gwefan yn **www.fco.gov.uk/drivingabroad**.

Ystyriaethau arbennig

Mae teithio yn gallu bod yn flinedig ac anodd i bawb. Ond mae'n bosib y bydd rhai teithwyr eisiau mynd ati'n arbennig o ofalus i gynllunio'u taith. Yn ogystal â'r wybodaeth gyffredinol uchod, mae'n bosib y bydd raid i rai teithwyr roi ystyriaeth i bethau eraill, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau. Gallai'r teithwyr hyn gynnwys:

- menywod sy'n teithio ar eu pen eu hunain;
- pererinion hajj;
- teithwyr ifanc;
- gwarbacwyr a theithwyr annibynnol;
- teithwyr ar fordaith;
- teithwyr ar gyfer priodasau a seremonïau partneriaeth sifil dramor;
- teithwyr hoyw, lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol; a
- theithwyr anabl.

Mae'n bosib y bydd y teithwyr hyn am droi at ein gwefan deithio (dan 'Travel Advice Relevant to You') i ddarllen rhestrau o argymhellion i'w hystyried wrth drefnu teithiau dramor.

Pan fyddwch yno

- **Byddwch yn ymwybodol o ddiogelwch a chymrwch gamau synhwyrol.** Gadewch eich gemwaith a'ch pethau gwerthfawr gartref, os gallwch. Peidiwch â chario mwy o arian nag sydd ei angen ar gyfer y diwrnod. Gadewch y gweddill, ac o leiaf un cerdyn credyd, yn sêff y gwesty os oes un ar gael. Cadwch gopïau o'ch pasport, manylion yswiriant a dogfennau teithio pwysig eraill ar wahân i'r dogfennau gwreiddiol. Mae hi wastad yn ddefnyddiol cael rhyw fath o ddogfennau adnabod gyda chi, fel trwydded yrru neu lungopi o'ch pasport. Byddwch yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o'ch cwmpas ac osgoi sefyllfaoedd lle'r ydych yn teimlo'n anghyfforddus. Fe ddylai eich teithlyfr neu arweinydd y daith ddweud wrthych am unrhyw gynlluniau i dwyllo pobl ddieithr yn lleol. Ceisiwch gael y newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau lleol a rhanbarthol yn y cyfryngau. Peidiwch â chymryd risgiau ar wyliau na fyddech yn eu cymryd gartref. Os bydd sefyllfa'n edrych yn beryglus, mae'n debygol ei bod hi'n beryglus.
- Cadwch nodyn o **rif ffôn** Llysgenhadaeth, Uchel Gomisiwn neu Swyddfa Is-gennad Prydain yn lleol (mae manylion ar ein gwefan deithio ar gyfer y gwahanol wledydd, yn **www.fco.gov.uk/travel**). Ar ôl cyrraedd, holwch sut i gysylltu â'r gwasanaethau brys lleol petai eu hangen yn ystod eich arhosiad.
- Mae pasport yn ddogfen werthfawr, ac rydych yn gyfrifol am gymryd pob cam rhesymol i **ddiogelu eich pasport**. Mae Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi cytuno ar bolisi newydd a fydd yn ei gwneud yn anoddach i ddod i mewn i'r DU heb basport. Ni ddylech geisio teithio i'r DU ar drwydded yrru neu adroddiad heddlu lleol. Er y gallwn fel arfer roi pasports newydd dramor am ffi (gweler tudalen 15), os byddwch yn colli eich pasport droeon tra byddwch dramor, mae'n bosib y bydd raid i ni eich cyfweld am resymau diogelwch cyn rhoi pasport newydd. Dan rai amgylchiadau, mae'n bosib y bydd raid i ni gyfyngu ar ddilysrwydd y pasports newydd hyn. Fe wnawn ni egluro hyn yn llawn i chi.

- **Cadwch mewn cysylltiad rheolaidd â'ch teulu a'ch ffrindiau** yn y DU, yn enwedig os ydych yn teithio ar eich pen eich hun mewn ardal anghysbell, neu os ydych yn ymwybodol o ymosodiad terfysgol neu drychineb arall yn yr ardal lle'r ydych yn teithio. Efallai eich bod chi'n teimlo'n gwbl ddiogel, ond mae'n bosib y bydd pobl gartref yn poeni os na fyddant wedi clywed gennych, a hyd yn oed yn rhoi gwybod eich bod ar goll. Os ydych yn mynd â'ch ffôn symudol gyda chi dramor, gwnnech yn siwr fod gennych 'international roaming' (y cyfleuster i ddefnyddio eich ffôn ar rwydwaith dramor), ac addasydd fel y gallwch wefru eich batri.
- **Rhaid i chi ufuddhau i ddeddfau lleol.** Mae'n bosib y bydd cosbau hynod ddifrifol am dorri deddf a allai ymddangos yn ddibwys i chi, neu am wneud rhywbeth sy ddim yn anghyfreithlon yn y DU. Peidiwch ag aros yn hirach na'ch fisa na gweithio'n anghyfreithlon – fe allech chi wynebu dirwy neu gael eich hel i'r carchar. Mae'n bosib y bydd hobïau sy'n golygu defnyddio camerâu ac ysbienddrych, fel gwylio adar neu awyrennau, yn cael eu camddeall (yn enwedig ger safleoedd milwrol). Gall ffilmio neu dynnu lluniau gwrthdystiadau hefyd gael ei weld fel gweithredoedd pryfoclyd mewn rhai gwledydd. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth, peidiwch â mentro.
- **Parchwch arferion lleol** gan ymddwyn a gwisgo'n briodol, yn enwedig pan fyddwch yn ymweld â safleoedd crefyddol, marchnadoedd a chymunedau yng nghefn gwlad. Fe gewch chi wybodaeth ddefnyddiol mewn teithlyfrau, gan drefnwyr gwyliau a staff y gwesty. Os bydd unrhyw amheuaeth, byddwch yn fwy gofalus byth. Weithiau, mae ymddygiad a fyddai'n dderbyniol mewn mannau eraill yn gallu arwain at drafferth ddifrifol. Mewn rhai gwledydd, fe allai fod yn werth gofyn am ganiatâd cyn tynnu unrhyw ffotograffau rhag achosi tramgwydd. Helpwch i warchod bywyd gwyllt a chynefinoedd lleol trwy barchu rheolau a rheoliadau (gan gynnwys sut i gael gwared ar sbwriel yn briodol). Dylech fod yn ymwybodol bod prynu unrhyw gynhyrchion bywyd gwyllt yn beryglus. Bydd adrannau'r tollau ledled y byd yn atafaelu swfenîrs anghyfreithlon, ac yn y DU fe allech chi wynebu achos troseddol a dirwyon.
- **Gwneud yn siwr fod popeth rydych yn ei gludo'n ôl i'r DU yn gyfreithlon.** Fe gewch chi ragor o wybodaeth am ddod â chig, cynhyrchion anifeiliaid neu blanhigion yn ôl i'r DU oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn **www.defra.gov.uk** neu ffoniwch 08459 335577. Fe gewch chi wybodaeth am nwyddau sydd wedi'u gwahardd a'u cyfyngu, a'ch lwfansau perthnasol, oddi wrth Gyllid a Thollau EM yn **www.hmrc.gov.uk** neu ffoniwch 0845 010 9000.
- **Byddwch yn ymwybodol o agweddau lleol tuag at alcohol a chofiwch wybod eich terfynau eich hun.** Cofiwch fod diodydd sy'n cael eu gweini dramor yn aml yn gryfach na'r rhai a weinir yn y DU. Cadwch eich diodydd gyda chi bob amser, oherwydd fe allai rhywun roi cyffuriau ynddynt a'i gwneud hi'n fwy tebygol y bydd rhywun yn ymosod arnoch neu'n eich treisio. Cofiwch fod damweiniau'n fwy tebygol o ddigwydd ar ôl yfed alcohol neu gymryd cyffuriau. Dylech osgoi yfed neu chwarae'n wirion ar falconi neu leoedd uchel eraill. Os byddwch yn cael damwain neu'n eich niweidio eich hun tra bo chi dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, mae'n **annhebygol y bydd eich polisi yswiriant yn eich yswirio.**
- Byddwch yn ymwybodol o'r hyn a allai ddigwydd petaech yn ymhél â chyffuriau dramor. Nid yn unig y mae yna beryglon i iechyd, ond mae'n bosib hefyd y bydd **cosbau difrifol am unrhyw gysylltiad â chyffuriau**. Peidiwch byth â chario pecynnau drwy'r tollau ar gyfer pobl eraill a byddwch yn wyliadwrus ynghylch derbyn anrhegion. Os ydych yn gyrru, peidiwch â rhoi benthyg eich cerbyd i bobl eraill a pheidiwch ag eistedd yng ngherbyd rhywun arall wrth fynd drwy'r tollau neu wrth groesi ffiniau – ewch allan a cherddwch. Paciwch eich bagiau eich hun, eu cloi'n ddiogel a chadwch eich bagiau gyda chi bob amser. Mae gennym daflen o'r enw Drugs: Information for Travellers sy'n rhoi rhagor o wybodaeth. Mae yna fanylion ar wefan deithio'r FCO dan y pennawd 'Our publications'.
- **Dilynwch unrhyw gyngor am iechyd** a gawsoch cyn teithio (fel y sonnir ar dudalen 10). Fe ddylech, er enghraifft, yfed digon o dd§r yfed diogel, defnyddio eli haul, a bod yn ofalus wrth ddewis beth i'w fwyta a ble i'w fwyta.

- Mae gennym restr o gyfreithwyr, cyfieithwyr, meddygon a threfnwyr angladdau lleol sydd ar gael, ar wefannau Llysgenhadon, Uchel Gomisiynau neu Swyddfeydd Is-genhadon. Rydym yn ceisio gwneud yn siwr o leiaf unwaith y flwyddyn bod y rhestrau hyn yn gywir (gweler nodyn 1 isod).

Os ydych yn mynd i fyw dramor

Mae mynd i fyw dramor yn benderfyniad mawr ac fe ddylech **gael amrywiaeth eang o wybodaeth a chyngor** i'ch helpu i gynllunio a gwneud yn siwr eich bod yn llwyddo i symud yn ddidrafferth. **Gall dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor gael yr un gefnogaeth ag ymwelwyr**. Mae ein cyngor ynghylch teithio a gwefannau Llysgennad Prydain, yr Uwch Gomisiwn neu'r Swyddfa Is-gennad yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am faterion ynglŷn â byw dramor, yn ogystal â rhoi manylion cyswllt ar gyfer y llywodraeth a sefydliadau eraill yn y DU a thramor.

Rhai o'r prif bethau i'w cofio cyn mynd

- **Gwiriwch y gwefannau perthnasol** am wybodaeth. Er enghraifft, ein gwefan (**www.fco.gov.uk**), gwefan cenhadaeth dramor Prydain yn y wlad yr ydych yn symud iddi, gwefan y Llysgenhadaeth yn y DU y wlad dan sylw, a **www.direct.gov.uk** (o dan 'Britons living abroad').
- **Dewch i wybod am y system gofal iechyd**, yn cynnwys costau, a **mynnwch gynllun iechyd llawn**. Nid yw llawer o wledydd yn darparu gofal iechyd a ariannir gan y Llywodraeth a gall eich cymhwyster i dderbyn triniaeth o dan y GIG newid. Nid yw'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn ddilys ar gyfer personau nad sy'n preswylio yn y DU ac ni fydd yn ddilys wedi i chi symud dramor. Ystyriwch gymryd yswiriant iechyd i dalu am driniaeth feddygol a deintyddol breifat, yn ogystal â chostau cael eich cludo yn ôl i'r DU i dderbyn triniaeth feddygol. Ni fydd yswiriant teithio, mewn nifer o achosion, yn rhoi digon o yswiriant os ydych yn cynllunio i fyw dramor. Mae gwefannau defnyddiol ar gyfer rhagor o wybodaeth yn cynnwys **www.direct.gov.uk** a **www.ageconcern.org.uk** .

Nodyn 1:
Ni all y Llywodraeth na Llysgenhadaeth, Uchel Gomisiwn neu Swyddfa Is-gennad briodol Prydain wneud unrhyw warant mewn perthynas â gallu na chymeriad unrhyw berson na chwmni ar y rhestr, ac ni ellir eu dal yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd amdanoch yn dibynnu ar unrhyw gyngor a roddir i chi. Croesawn unrhyw sylwadau ar y bobl a'r cwmnïau a restrir.

- **Dewch i wybod am hawliau lles** dramor. Ni thelir rhai budd-daliadau'r DU y tu allan i'r DU. Bydd eraill dim ond yn gymwys mewn gwledydd sydd â chytundebau gyda'r DU (am ragor o fanylion, gweler **www.dh.gov.uk**). Dywedwch wrth eich swyddfa nawdd cymdeithasol. Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid a Thollau EM (Gwasanaethau Rhyngwladol) a'r Adran Gwaith a Phensiynau pan fyddwch yn symud dramor a rhoi eich manylion cyswllt iddynt. Dylech hefyd ddweud wrthynt os byddwch yn newid cyfeiriad eto neu'n dychwelyd i'r DU i fyw.
- **Byddwch yn glir am eich sefyllfa ariannol a chaniatewch ar gyfer newidiadau i'r gyfradd gyfnewid a chwyddiant.** Holwch am eich atebolrwydd treth yn y DU, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, a gofynnwch am ragolwg Pensiwn y Wladwriaeth. Ymhlith y gwefannau defnyddiol y mae **www.dwp.gov.uk** a **www.hmrc.gov.uk** Dylech hefyd wneud ewyllys.
- **Holwch ynglŷn â llety.** Defnyddiwch **gyfreithiwr** annibynnol wrth brynu eiddo. Ar ein gwefan mae rhestrau cyfreithwyr lleol sy'n siarad Saesneg. Ni allwn ni roi cyngor cyfreithiol na chymryd rhan yn y broses brynu nac unrhyw anghydfod.
- Gwnewch yn siwr fod eich **car** yn unol â rheoliadau lleol a bod y **drwydded yrru** angenrheidiol gennych. Ni allwn eich cynorthwyo i allforio na mewnforio eich car neu eiddo personol.
- **Dysgwch yr iaith.** Fe welwch fod bywyd bob dydd yn llawer haws.
- Ymchwiliwch y cyfleoedd o ran **ysgolion ac addysg**. Cysylltwch ag awdurdodau lleol y wlad i ddysgu am y gyfundrefn addysg.
- Holwch i weld a allwch barhau i **bleidleisio** yn etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau Senedd Ewrop. Gweler **www.aboutmyvote.co.uk** am fanylion.
- Mae'n hollbwysig fod gennych **basport dilys** (llenwch fanylion dau /dwy berthynas neu ffrind ar y dudalen gefn ac unrhyw **fisas sydd eu hangen**.

Os ydych yn ymddeol dramor

- **Cysylltwch â chymdeithasau ac elusennau** am gyngor. Mae gan Age Concern (**www.ageconcern.org.uk**) a **www.direct.gov.uk** gyngor am gynllunio a pharatoi ar gyfer symud dramor, yn ogystal â beth i'w wneud a gyda phwy i gysylltu os na fydd pethau'n mynd yn ôl y cynllun. I gael gwybodaeth am sut brofiad yw byw dramor, gweler gwefan SAGA yn **www.saga.co.uk.**
- Holwch am **gyngor treth annibynnol** ynglŷn â manteision bancio dramor, gan y gallai hyn leihau faint o dreth yr ydych yn gyfrifol am dalu.
- Cofiwch fod yn rhaid bod dinasyddion Prydeinig wedi bod yn byw yn y DU am bum mlynedd i fod â hawl am fudd-daliadau cysylltiedig ag incwm y DU. Gallai hyn effeithio arnoch os bydd yn rhaid i chi ddychwelyd i'r DU am unrhyw reswm. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y **'prawf preswylio arferol'** ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau (**www.dwp.gov.uk**) neu wefan Cyngor ar Bopeth (**www.citizensadvice.org.uk**).

Rhai o'r prif bethau i'w hystyried pan fyddwch yn cyrraedd

- **Cofrestrwch â'r awdurdodau lleol.** Gallai hyn roi mynediad i chi at y gwasanaethau lles lleol. Mewn rhai gwledydd bydd angen i chi wneud cais am drwydded breswylio o fewn cyfnod penodol o amser wedi i chi gyrraedd.
- Dywedwch wrth eich ffrindiau a'ch teulu, ac wrth awdurdodau megis Cyllid a Thollau EM, Yswiriant Gwladol a'r Adran Gwaith a Phensiynau beth yw eich **cyfeiriad newydd** a dywedwch wrthynt am unrhyw newidiadau yn y dyfodol.
- Agorwch **gyfrif banc tramor.** Os ydych yn ymddeol, gall eich pensiynau gael eu talu i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol mewn nifer o wledydd.
- Cysylltwch â chymdeithasau, clybiau ac elusennau Prydeinig, gan y gallai'r rhain eich helpu i setlo. Mae rhestrau fel arfer ar gael gan y genhadaeth dramor Prydeinig yn eich ardal.
- Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein taflen 'Going to Live Abroad', sydd ar gael yn **www.fco.gov.uk/travel** o dan 'Our Publications'.

Cofiwch!

Fe fyddwn yn disgwyl i chi fod ag yswiriant teithio llawn ar gyfer eich taith, neu ofal iechyd ac yswiriant priodol arall os ydych yn byw dramor. Ni all y Llywodraeth dalu costau meddygol na rhoi ad-daliad am eiddo ar goll.

Byddwn yn codi am rai mathau o gefnogaeth gonsylaidd. Mae hyn er mwyn helpu i dalu cost darparu cefnogaeth ledled y byd. Ni fyddwn yn gwneud elw ar y taliadau hyn. Mae rhestr lawn o'n ffioedd consylaidd ar gael yn **www.fco.gov.uk**.

Trychinebau mawr

Mae'n bosib y byddwn yn cynnig help eithriadol mewn trychineb (gweler tudalen24), ond dylech gadw hyn mewn cof:

- Os ydych yn teithio neu'n byw dramor, dylech gofrestru a diweddaru eich manylion ar ein system cofrestru ar-lein, LOCATE. Mae hyn yn ein cynorthwyo i gadarnhau'n gyflym a ydych yn ddiogel, gan ganiatau i ni gynnig cefnogaeth i'r bobl sydd â mwyaf o angen wedi unrhyw drychineb.
- Fe allai gymryd amser i'ch helpu os bydd y trychineb wedi effeithio ar y seilwaith (enghraifft, os bydd gwifrau ffôn wedi'u difrodi, ffyrdd wedi cau neu bontydd wedi disgyn). Mae'n bosib hefyd y bydd yn amhosib cyrraedd atoch os bydd yr awdurdodau lleol wedi cau'r ardal dan sylw.

Os bydd rhywbeth yn digwydd i chi

Mae'r adran hon yn disgrifio'r math o gefnogaeth y gallwn ei chynnig fel arfer os bydd pethau'n mynd o chwith. Os cewch eich dal mewn trychineb mawr, mae'n bosib y bydd lefel wahanol o gefnogaeth ar gael, gweler tudalennau 24 a 25.

Os bydd rhywbeth yn cael ei ddwyn

- Os bydd eich arian, pasport neu unrhyw beth arall yn cael eu dwyn dramor, **cysylltwch â'r heddlu lleol** ar unwaith a chael datganiad am y golled (bydd arnoch angen un i hawlio yn erbyn eich yswiriant).
- Bydd angen i chi **ganslo unrhyw gardiau credyd neu sieciau teithio**. Mae'n bosib hefyd y byddwch eisiau i'ch banc neu berthynas anfon arian atoch, gan ddefnyddio cwmni trosglwyddo arian dibynadwy. Fe all ein staff roi gwybodaeth am hyn i chi, os bydd angen.

Colli neu ddwyn pasports

- Os bydd eich pasport yn mynd ar goll neu'n cael ei ddwyn dramor a bod angen i chi deithio ar frys, **fe allwn ni ddarparu dogfen deithio yn ei le** unwaith y byddwn yn fodlon ein bod yn gwybod pwy ydych chi a'ch bod yn ddinesydd Prydeinig. Bydd angen i chi ddarparu adroddiad gan yr heddlu, llenwi ffurflen gais a thalu ffi.
- Yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r wlad yr ydych ynddi, fe allai'r ddogfen deithio arall fod yn:
  - 'Ddogfen Deitho Frys', sy'n ddilys am un daith; neu
  - pasport safonol.

Er mwyn darparu pasport, bydd angen i ni wneud ymholiadau, ac mae'n bosib y bydd angen i chi fynychu cyfweliad. Mae hyn yn cymryd amser ac efallai y bydd yn rhaid i chi ohirio eich trefniadau teithio. Dylech wneud yn siwr bod eich yswiriant teithio yn eich yswirio os digwydd hyn.

- Os bydd raid i'n staff ddarparu dogfennau teithio brys y tu allan i oriau arferol y swyddfa, bydd rhaid i chi dalu ffi ychwanegol. Cyn cysylltu â ni, ystyriwch a fydd arnoch angen fisa ymadael hefyd gan yr awdurdodau mewnfudo. Nid yw rhai gwledydd yn rhoi fisas y tu allan i oriau arferol y swyddfa.

Cymorth ariannol

- Os byddwch yn rhedeg allan o arian dramor, fe allwn ni roi **gwybodaeth ynghylch sut i drosglwyddo arian** a gallwn eich helpu i gysylltu â pherthnasau a ffrindiau a allai fod yn barod i drosglwyddo arian i chi neu brynu tocyn yn ôl i'r DU ar eich rhan. Os byddwn yn trosglwyddo arian ar eich rhan, byddwn yn codi ffi am wneud hyn.
- Ni allwn ddarparu arian os ydym wedi cysylltu â theulu neu ffrindiau i chi. Er enghraifft, os ydych wedi gorfod mynd i'r ysbyty, ni allwn roi arian iddynt i helpu gyda theithio na llety os byddant yn ymweld â chi.
- Does **dim hawl awtomatig** i dderbyn cymorth ariannol brys gennym. Mae'n bwysig bod gennych yswiriant teithio llawn gan **na allwn dalu eich** biliau ar eich rhan. Os nad oes gennych yswiriant teithio, byddwch yn atebol am unrhyw gostau a godir arnoch. **Dan rai amgylchiadau eithriadol iawn, a phan fydd popeth arall wedi methu, mae'n bosib y byddwn yn rhoi benthyciad o arian cyhoeddus i'ch helpu i ddychwelyd i'r DU**. Bydd rhaid i chi **arwyddo 'ymgymeriad i ad-dalu'r benthyciad** a bydd yn rhaid i chi ddangos bod gennych gyfeiriad yn y DU a'r gallu i dalu'r arian yn ôl. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd rhaid i chi warantu'r benthyciad hwn trwy ildio eich pasport i'n staff a fydd yn gallu rhoi dogfen deithio frys i chi ar gyfer un daith i'r DU. Ni fyddwn yn dychwelyd eich pasport ac ni fydd Gwasanaeth Hunaniaeth a Pasport y DU yn rhoi pasport newydd i chi hyd nes y byddwch wedi ad-dalu'r benthyciad yn llawn. I gael awgrymiadau ynglŷn â sut i helpu eich hun os bydd genych broblemau ariannol dramor, gweler yr adran 'Travel Money' ar ein gwefan deithio **www.fco.gov.uk/travel.**

Pobl sy'n dioddef troseddau dramor

- Gallwn roi **gwybodaeth gyffredinol am yr heddlu lleol a threfniadau cyfreithiol**. **Allwn ni ddim rhoi cyngor cyfreithiol i chi**, ond fe allwn roi gwybod i chi ble i'w gael.
- Os bydd arnoch angen triniaeth feddygol, gallwn eich helpu i gysylltu â meddyg lleol.
- Os byddwch yn dymuno, gallwn gysylltu â'ch perthnasau a'ch ffrindiau i roi gwybod beth ddigwyddodd. Gallwn gynnig cymorth ariannol dim ond yn unol â'n polisi a amlinellir yn adran 'Cymorth Ariannol' y canllaw hwn.
- **Ni allwn gasglu tystiolaeth nac ymchwilio i droseddau** ein hunain, ac mewn llawer o wledydd fe fydd yr awdurdodau ymchwiliol a'r llysoedd yn gwrthod ateb cwestiynau gan bobl a sefydliadau eraill, gan gynnwys consyliaid. Felly, fe ddylech ystyried penodi cyfreithiwr lleol i ofalu am eich buddiannau yn y llys, a dilyn unrhyw dreial ar eich rhan. Gallwn roi rhestr o gyfreithwyr sy'n siarad Saesneg a chyfieithwyr i chi. Fel rheol ni fyddem yn mynd i achos llys sy'n cynnwys dinesydd Prydeinig ac ni allwn ddylanwadu ar ganlyniad unrhyw dreial.
- Yn ôl yn y DU, mae'n bosib y byddwch yn teimlo y byddech ar eich ennill o gael rhagor o gefnogaeth i'ch helpu i ymdopi ag effeithiau'r trosedd. Fe all sefydliadau fel Cymorth i Ddioddefwyr helpu (**www.victimsupport.org**).
- Os ydych wedi eich anafu mewn trosedd dreisgar mewn gwlad arall yr UE, efallai y gallwch wneud cais am iawndal gan wledydd eraill yr UE gyda chymorth yr Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol (gweler **www.cica.gov.uk** neu ffoniwch 0800 358 3601).
- Mae gennym daflen o'r enw Victims of crime abroad sy'n cynnig gwybodaeth fanylach. Mae manylion i'w cael ar ein gwefan deithio, dan 'Our publications'.

Pobl sy'n cael eu treisio neu'n dioddef ymosodiadau rhywiol dramor

- Rydym yn ystyried unrhyw hysbysiad am dreisio neu ymosodiad rhywiol yn fater difrifol a byddwn yn ceisio trefnu i'ch gweld i gynnig cefnogaeth cyn gynted â phosib, ac yn breifat. Ein nod yw bod yn gwrtais, yn amyneddgar, yn sensitif ac anfeirniadol. Yn y rhan fwyaf o achosion o dreisio ac ymosodiad rhywiol, mae'n well gan ddioddefwyr, ni waeth beth fo'u rhyw, drafod yr hyn a ddigwyddodd iddynt gyda menyw. Os mai dyna fydd eich dymuniad, fe wnawn ein gorau glas i sicrhau bod swyddog sy'n fenyw yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod.
- Gallwn **ddweud wrthych am drefniadau'r heddlu lleol ac am drefniadau cyfreithiol**. Os ydych eisiau cysylltu â'r heddlu, gallwn fynd i orsaf yr heddlu gyda chi. Os bydd modd, gallwn ofyn eich bod yn cael eich cyfweld gan blismones, petai'n well gennych. Os byddwch yn dymuno, gallwn roi rhestr o gyfreithwyr a chyfieithwyr lleol i chi. Fodd bynnag, **dim ond y chi all benderfynu a ydych am riportio'r drosedd ai peidio i'r heddlu neu gymryd camau cyfreithiol ai peidio**: allwn ni ddim gwneud y penderfyniad hwn ar eich rhan. Cofiwch os byddwch yn dewis peidio â dweud wrth yr heddlu am y trosedd ar unwaith ond eich bod yn newid eich meddwl wedyn, mae'n bosib y bydd tystiolaeth fforensig a thystiolaeth arall yn mynd ar goll. Hefyd, mewn rhai gwledydd, rhaid i chi ddweud wrth yr heddlu am y trosedd cyn dychwelyd i'r DU os ydych eisiau iddynt ymchwilio iddo.
- Fe allwn eich **helpu i ddelio â'r awdurdodau lleol i drefnu archwiliad meddygol**, gan feddyg sy'n fenyw, os yn bosibl ac os mai hynny yr ydych yn ei ddymuno. Gan ddibynnu ar amodau a deddfau lleol, gallwn drefnu i chi weld meddyg i gael cyngor ynghylch heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, gan gynnwys HIV ac AIDS, a chyngor ynghylch beichiogrwydd neu erthyliad.
- Os dymunwch, gallwn gysylltu â'ch teulu neu eich ffrindiau.
- Os dymunwch, gallwn roi gwybodaeth am **ba help proffesiynol sydd ar gael** yn lleol ac yn y DU, i chi yn ogystal ag i'ch teulu. Fe allwn ystyried gofyn am wasanaethau swyddog hyfforddedig ym maes troseddau rhywiol o'ch gorsaf heddlu leol i'ch cynghori a'ch helpu.
- Mae gennym daflen o'r enw Rape and sexual assault overseas sy'n rhoi rhagor o wybodaeth. Mae'r manylion i'w gweld ar ein gwefan deithio, dan 'Our publications'.

Dinasyddion Prydeinig sy'n mynd i'r ysbyty dramor

- Ein nod yw **cysylltu â chi o fewn 24 awr i gael gwybod** eich bod yn yr ysbyty.
- Fel arfer fyddwn ni ddim yn cysylltu nac yn ymweld â phobl sydd wedi teithio'n benodol i gael triniaeth feddygol.
- Os ydych yn yr ysbyty o **ganlyniad i ymosodiad neu drosedd arall, fe wnawn ni ymweld â chi cyn gynted â phosib**.
- Ym mhob achos arall, fe fyddwn yn ystyried ffactorau fel eich cyflwr, eich gallu i siarad ar y ffôn, a oes gennych berthnasau neu ffrindiau gyda chi, a oes gennych chi gynrychiolydd o gwmni teithio a safon y cyfleusterau meddygol, cyn penderfynu a yw'n briodol ymweld. Os byddwn o'r farn bod ymweliad yn briodol a bod Llysgenhadaeth, Uchel Gomisiwn neu Swyddfa Is-gennad Prydain yn yr un ddinas â'r ysbyty lle'r ydych yn glaf, ein nod fydd **ymweld â chi o fewn 48 awr** ar ôl cael gwybod eich bod wedi mynd i'r ysbyty.
- Os dymunwch, gallwn gysylltu â'ch teulu neu'ch ffrindiau yn y DU i ddweud eich bod yn yr ysbyty.
- Os dymunwch, gallwn eich helpu i gysylltu â'ch cwmni yswiriant neu gwmni cludo meddygol. Cofiwch **gadw unrhyw dderbynebau neu nodiadau gan feddygon** rhag ofn y bydd arnoch eu hangen i hawlio arian yn ôl. Gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni, mae'n bosib hefyd y byddwn yn gallu eich helpu i gyfathrebu â staff yr ysbyty os nad ydynt yn siarad Saesneg.
- Os ydych yn teithio o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (gweler nodyn 2 ar dudalen 10) neu'r Swistir, dylech gario Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) a fydd yn rhoi'r hawl i chi gael triniaeth feddygol yn rhatach, neu am ddim mewn rhai achosion. Os ydych yn byw yn y DU yn arferol gallwch wneud cais am EHIC ar unrhyw adeg, hyd yn oed pan fydd angen triniaeth feddygol neu pan fydd triniaeth feddygol wedi dechrau (gweler **www.ehic.org.uk**).
- Ni allwn dalu biliau meddygol.

Afiechyd meddwl

- Mae **cyfleusterau ar gyfer delio ag afiechyd meddwl yn amrywio'n fawr** ledled y byd. Mewn rhai gwledydd does dim digon o adnoddau ar gael, mewn gwledydd eraill yr unig ddewis mewn gwirionedd yw clinigau preifat, costus ac, mewn rhai mannau, mae'n bosib y bydd pobl ag afiechyd meddwl yn cael eu cadw gan yr heddlu yn hytrach na chael eu derbyn i'r ysbyty.
- Os oes gennych chi afiechyd meddwl a'ch bod eisiau ein help, fe fyddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau eich bod yn cael help a chyngor meddygol, ble bynnag y byddwch. Ond allwn ni ddim darparu'r help a'r cyngor hwn ein hunain, na thalu biliau meddygol.
- Os bydd eich moddion ar bresgripsiwn wedi dod i ben, fe allwn ni roi gwybodaeth ynghylch cael cyflenwadau'n lleol. Cofiwch, fodd bynnag, mewn rhai gwledydd y gallai eich moddion gael eu gwahardd neu na fyddant ar gael.
- Os dymunwch, fe allwn ni gysylltu â'ch teulu a'ch ffrindiau yn y DU.
- Os bydd angen, fe allwn ni helpu staff meddygol lleol i gysylltu â staff meddygol yn y DU a allai roi cyngor ynghylch eich cefndir meddygol ac a fydd y bobl fwyaf priodol o bosib i gynnig cefnogaeth barhaus os byddwch yn dychwelyd i'r DU.
- Mae'n bosib y sylweddolwch nad yw eich polisi yswiriant yn yswirio afiechyd meddwl, neu nad yw'n ddilys oherwydd na wnaethoch chi ddatgelu cyflwr meddygol oedd eisoes yn bodoli. Yn yr achosion hyn, rhaid i chi neu eich teulu **ddisgwyl talu am unrhyw driniaeth**.

Priodas dan orfod sy'n cynnwys dinesydd prydeinig dramor

- Os ydych yn ddinesydd Prydeinig yn y DU ac yn poeni am gael eich gorfodi i briodi dramor, cysylltwch â'r **Uned Priodasau dan Orfod** sydd gennym, drwy e-bost fmu@fco.gov.uk, rhif ffôn 020 7008 0151 neu, y tu allan i oriau'r swyddfa, trwy ffonio ein switsfwrdd ar 020 7008 1500. Mae'n hanfodol eich bod yn meddwl yn ofalus cyn penderfynu a ydych am deithio i'r wlad dan sylw.
- Os ydych eisoes dramor ac yn ofni eich bod am gael eich gorfodi i briodi, fe ddylech geisio **cysylltu, neu'n well fyth fynd i Lysgenhadaeth, Uchel Gomisiwn neu Swyddfa Is-gennad agosaf Prydain**. Mae'r manylion cysylltu yn y llyfrau ffôn lleol, mewn gwestai a swyddfeydd twristiaid, neu ar ein gwefan yn **www.fco.gov.uk**. Os na allwch fynd yno, mae'n dal yn bosib i ni geisio eich helpu, o fewn terfynau'r gyfraith leol.
- **Gallwn geisio eich helpu i ddychwelyd i'r DU**, os mai dyma yw eich dymuniad. Os bydd modd, fe allwn ni geisio dod o hyd i lety dros dro i chi hefyd yn y wlad dan sylw.
- Mae gennym daflen o'r enw What is a Forced Marriage? sy'n rhoi rhagor o wybodaeth. Mae'r manylion i'w cael ar ein gwefan deithio dan 'Our publications'.

Dinasyddion prydeinig yn y ddalfa neu'r carchar dramor

- Os cewch eich arestio neu eich cadw yn y ddalfa neu'r carchar mewn gwlad dramor, dylai'r awdurdodau yn y wlad honno ofyn i chi a ydych eisiau iddyn nhw gysylltu â Llysgenhadaeth, Uchel Gomisiwn neu Swyddfa Is-gennad Prydain. Ond, fe allwch chithau ofyn iddynt gysylltu, ac fe ddylech chi wneud hynny yn enwedig os cewch eich cyhuddo o gyflawni trosedd difrifol.
- Ein nod yw **cysylltu â chi, gan ddibynnu ar drefniadau lleol, o fewn 24 awr ar ôl cael gwybod** am eich arestio neu eich rhoi yn y ddalfa. Os dymunwch, fe wnawn ni wedyn geisio ymweld â chi cyn gynted â phosib.
- Mae ein staff yno **i'ch cefnogi a chymryd diddordeb yn eich lles**. Ein nod yw bod yn sensitif ac anfeirniadol. Fe fyddwn hefyd yn ceisio trin pob carcharor yr un fath ni waeth am ba drosedd y cânt eu cadw yn y ddalfa, neu a ydynt ar remand neu wedi'u dedfrydu. Fe ddylech aros mewn cysylltiad â'n staff a gofyn am eu help, oherwydd bydd ganddynt brofiad o ddelio â llawer o'r problemau a fydd yn eich wynebu.
- Ond, **allwn ni ddim eich cael chi allan o'r carchar neu'r ddalfa, ac allwn ni ddim sicrhau triniaeth arbennig** i chi oherwydd eich bod yn Brydeinig.
- Os dymunwch, gallwn ddweud wrth eich teulu neu'ch ffrindiau eich bod wedi cael eich arestio. Os ydych yn ystyried peidio â dweud wrth eich teulu, ystyriwch y drafferth y gallai hyn ei achosi iddyn nhw os na fyddant yn gwybod lle'r ydych chi. Fe allech chithau fod dan anfantais hefyd os bydd arnoch angen arian ar gyfer unrhyw beth yn y carchar neu os byddwch yn sâl. Unwaith y byddwn wedi dweud wrth eich teulu a'ch ffrindiau, gallwn drosglwyddo negeseuon rhyngoch chi mewn sefyllfaoedd lle nad oes gwasanaethau ffôn na phost ar gael.
- Er **na allwn roi cyngor cyfreithiol, cychwyn achos cyfreithiol nac ymchwilio i drosedd**, fe allwn ni **gynnig gwybodaeth sylfaenol am y gyfundrefn gyfreithiol leol**, gan gynnwys a oes cynllun cymorth cyfreithiol ar gael. Gallwn roi rhestr o gyfieithwyr lleol a chyfreithwyr lleol i chi os byddwch yn dymuno, er **na allwn dalu** am y naill na'r llall. Mae'n bwysig ystyried yn ofalus a ydych eisiau cael cynrychiolaeth gyfreithiol a thrafod yr holl gostau ymlaen llaw gyda chynrychiolydd cyfreithiol.
- Gallwn gynnig **gwybodaeth am y carchar lleol neu'r system remandio**, gan gynnwys trefniadau ymweld, y post a sensoriaeth, breintiau, posibiliadau gwaith, a gwasanaethau cymdeithasol a lles. Gallwn egluro hefyd ble ceir gwahanol reoliadau ar gyfer carcharorion ar remand a charcharorion wedi'u dedfrydu. Er enghraifft, mewn rhai gwledydd, bydd carcharorion yn cael anfon mwy o lythyrau pan fyddan nhw ar remand.
- Os bydd yn briodol, fe wnawn ni **ystyried** cysylltu â'r awdurdodau lleol os na chewch eich **trin yn unol â safonau a dderbynnir yn rhyngwladol**. Gallai hyn gynnwys ble nad yw eich treial yn dilyn safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer treial teg neu os bydd oedi afresymol o gymharu ag achosion lleol.
- Gallwn hefyd gynorthwyo i 'ch cysylltu â'r elusen Fair Trials International (**www.fairtrials.net**).
- Gyda'ch caniatâd chi, gallwn **fynd ar ôl unrhyw gŵyn gyfiawn** am gamdriniaeth, diogelwch personol, neu wahaniaethu gyda'r heddlu neu awdurdodau'r carchar. Unwaith eto, gyda'ch caniatâd chi, gallwn wneud yn siwr bod unrhyw **broblemau meddygol neu ddeintyddol** sydd gennych yn cael eu dwyn i sylw unrhyw feddyg gyda'r heddlu neu'r carchar.

- Os byddwch mewn carchar mewn gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd, neu yng Ngwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy, y Swistir, Canada, Unol Daleithiau America, Awstralia neu Seland Newydd, ein nod fydd ymweld â chi unwaith ar ôl dedfrydu ac ar ôl hynny os bydd gwir angen yn unig. Mewn gwledydd eraill, tra byddwch yn y carchar fe fyddwn yn ceisio ymweld â chi o leiaf unwaith y flwyddyn, er y gallwn ymweld â chi'n amlach petai angen.
- O fewn rhai terfynau, **gallwn anfon arian atoch oddi wrth eich teulu**. Mewn rhai achosion gallai fod tâl am hyn. Mewn rhai gwledydd, yn dibynnu ar reolau'r carchar lle'r ydych yn cael eich dal, gallwn eich helpu i brynu 'cysuron' carchar gydag arian a ddaw oddi wrth eich teulu, ffrindiau neu eraill. Fe allwn gynnig eich rhoi mewn cysylltiad ag elusen lles carcharorion, sef Prisoners Abroad (ewch i **www.prisonersabroad.org.uk** neu ffoniwch 020 7561 6820).
- Mae'n bosib y gallwn roi gwybodaeth i chi am unrhyw drefniadau lleol ar gyfer rhyddhau carcharorion yn gynnar dan amgylchiadau eithriadol. Yr enw cyffredinol ar y trefniadau hyn yw **pardwn neu drugaredd**. Ni fyddwn ond yn **ystyried** cefnogi pledion am bardwn neu drugaredd:
  - dan amgylchiadau tosturiol anorchfygol, er enghraifft ble bydd carcharor neu aelod agos o'r teulu yn ddifrifol wael neu'n marw a hynny'n gadael neb i ofalu am ddibynyddion;
  - mewn achosion lle bydd plant dan oed wedi'u carcharu dramor; neu
  - pan fetho popeth arall, mewn achosion ble mae gennym dystiolaeth sy'n ymddangos fel petai'n awgrymu camweinyddu cyfiawnder.
- Rydym yn gwrthwynebu'r gosb eithaf o dan unrhyw amgylchiadau. Os ydych yn wynebu cyhuddiad sydd â'r gosb eithaf, neu os ydych wedi derbyn collfarn o farwolaeth, byddwn fel arfer yn codi eich achos ar ba bynnag gam a lefel y barnwn i fod yn briodol.
- Gallwn egluro wrthych sut y gallai fod yn bosib i chi **wneud cais i drosglwyddo i garchar yn y DU** os ydych mewn gwlad lle mae'n bosib trosglwyddo rhwng carcharau. Mae gennym daflen o'r enw Transfers home for prisoners abroad sy'n rhoi rhagor o fanylion.
- Mae'n bosib fod gan yr awdurdodau lleol bolisi o **anfon dinasyddion tramor o'r wlad** ar ôl iddynt dreulio amser yn y carchar ac ni allwn eu rhwystro rhag gwneud hynny i chi, hyd yn oed os buoch yn byw yn y wlad yn flaenorol cyn eich dedfryd o garchar.
- Fe ddylech fod yn ymwybodol **os cewch eich arestio am gyflawni rhai troseddau difrifol, fel cam-drin plant yn rhywiol neu droseddau cyffuriau, bod yn rhaid i'n staff ddweud wrth awdurdodau perthnasol eraill yn y DU**.
- Mae gennym daflen o'r enw In prison abroad gyda rhagor o wybodaeth. Fe gewch chi ragor o fanylion am y daflen hon, a'r un ar drosglwyddo, ar ein gwefan deithio dan 'Our publications'.

Nodyn 1:
Rydym yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Efallai y byddwn yn rhyddhau gwybodaeth bersonol i adrannau eraill llywodraeth y DU ac i awdurdodau cyhoeddus.

Beth os bydd rhywbeth yn digwydd i berthynas neu bartner

Mae'r adran hon yn egluro pa gefnogaeth rydym yn ceisio ei chynnig i bartneriaid neu berthnasau dinesydd Prydeinig sy'n marw neu'n dioddef anffawd ddifrifol arall dramor. Mae'n bosib y bydd lefel y gefnogaeth yn wahanol os yw'r unigolyn dan sylw yn rhan o drychineb mawr (gweler tudalennau 24 a 25).

Y perthynas agosaf a chynrychiolwyr

- Pan ddywedir wrthym am ddigwyddiad yn ymwneud â dinesydd Prydeinig dramor, fe wnawn ni geisio cysylltu â theulu'r person cyn gynted â phosib.
- Ond, fel arfer allwn ni ddim trosglwyddo gwybodaeth i berthnasau os bydd yr unigolyn dan sylw yn gofyn i ni beidio â gwneud hynny – er enghraifft, os cawsant eu harestio ond nad ydynt eisiau i'w teulu gael gwybod am hyn.
- I'n helpu i ddarparu gwybodaeth mor effeithlon a diogel â phosib, dylai teuluoedd benodi un cynrychiolydd teuluol y gallwn ddelio ag ef/hi wrth i'r achos barhau. Hyd y bo modd, byddwn yn gwneud yn siwr bod yr unigolyn hwn yn gallu cysylltu ag un aelod penodol o'n staff.
- Ble bydd rhywun yn marw dramor, ni fyddwn ond yn delio â'r perthynas agosaf neu'r unigolyn y mae'r perthynas agosaf wedi gofyn iddo/iddi weithredu ar ei ran wrth ymwneud â'r angladd neu eiddo'r sawl a fu farw.
- Os oes ymchwiliad ar y gweill dramor, byddwn hefyd yn penderfynu a fydd angen gofyn i heddlu lleol yn y DU ddefnyddio Swyddog Cyswllt Teulu (FLO) i gynghori a helpu'r teulu wrth ddelio â'r ymchwiliad. Yr heddlu perthnasol yn y DU fydd yn penderfynu'n derfynol a ddylid penodi FLO.

Marwolaethau dramor oherwydd achosion naturiol

- Os oedd y sawl a fu farw yn teithio gyda chwmni teithio, yn aml fe fydd y cwmni eu hunain yn cysylltu â'r perthynas agosaf y person. Os byddwn yn cael gwybod am farwolaeth dinesydd Prydeinig dramor, ac na fydd eu perthynas agosaf yn bresennol, **fe fyddwn yn gofyn i'r heddlu yn y DU roi gwybod i'r perthynas agosaf** cyn gynted â phosib. Os nad yw'r perthynas agosaf yn y DU, byddwn yn gofyn i'n staff consylaidd yn y wlad dan sylw wneud hyn. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau, fel perthynas agosaf, na fyddwch yn clywed am y farwolaeth am y tro cyntaf ar y cyfryngau, er na allwn ddylanwadu ar hyn bob amser. Dan amgylchiadau eithriadol, er mwyn gweithredu'n gyflym, mae'n bosib y bydd hyn yn golygu y bydd raid i ni roi gwybod i chi am y farwolaeth dros y ffôn. Ni fyddwn yn rhyddhau enw'r sawl a fu farw i'r cyfryngau cyn dweud wrth y perthynas agosaf.
- Fe all staff consylaidd yn Llundain roi gwybod i'n staff dramor am ddymuniadau'r perthynas agosaf o ran ymdrin â'r corff. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod y dymuniadau hyn yn cael eu parchu. Ond, **mae'n bosib y bydd raid i'r awdurdodau lleol gynnal archwiliadau post-mortem heb ganiatâd y perthynas agosaf**. Fe ddylech fod yn ymwybodol hefyd, mewn rhai gwledydd, y bydd organau'n cael eu tynnu a'u cadw yn ystod y gweithredoedd hyn heb i'r perthynas agosaf gael gwybod neu heb ymgynghori â'r perthynas agosaf.

- Os byddwch yn dymuno, gallwn ddweud wrthych beth yw cost claddu'n lleol ac amlosgi'n lleol (os bydd awdurdodau lleol yn caniatáu hynny ar gyfer tramorwyr) neu gost cludo'r corff ac eiddo personol yn ôl i'r DU. Fe ddylech fod yn ymwybodol, mewn rhai gwledydd, y gallai diffyg storfeydd addas olygu ei bod yn amhosib cael y tystysgrifau rhyngwladol angenrheidiol i gludo'r corff. Er **na allwn ni dalu unrhyw gostau claddu, amlosgi na chostau dychwelyd y corff** na thalu unrhyw ddyledion, **gallwn helpu i drosglwyddo arian** gan ffrindiau a pherthnasau yn y DU i dalu unrhyw gostau angenrheidiol. Os byddwch yn dymuno, fe allwn ni ddarparu rhestrau o drefnwyr angladdau lleol a rhyngwladol. Os na fydd cwmni sy'n siarad Saesneg ar gael, fe all ein staff eich helpu gyda'r trefniadau.
- Bydd crwner yng Nghymru a Lloegr fel arfer yn cynnal ymchwiliad os bu i berson farw mewn amgylchiadau treisgar neu'n annaturiol dramor a bod y corff yn cael ei ddychwelyd i ranbarth y crwner. Mae gwahanol weithdrefnau ar gyfer ymchwilio i farwolaethau yn gymwys ym mhob rhan o'r DU. Mae gennym lyfryn o'r enw 'Guide for Bereaved Families', y gallwch ddod o hyd iddo yn **www.fco.gov.uk/travel** o dan "Our Publications".
- Mewn achos trychineb mawr neu ymosodiad terfysgol, gall arferion lleol mewn gwledydd tramor newid, ac efallai y bydd oedi gyda chyrff yn cael ei dychwelyd i'r DU oherwydd gweithdrefnau adnabod cyrff.
- **Rhaid cofrestru pob marwolaeth yn y wlad ble bu farw'r unigolyn**. Fe allwn eich cynghori sut i wneud hyn. Bydd arnoch angen dogfennau amdanoch chi a'r sawl a fu farw, gan gynnwys er enghraifft, enw llawn, dyddiad geni a rhif pasport y sawl a fu farw. Bydd ar yr awdurdodau lleol angen gwybod a oedd yr unigolyn yn dioddef o gyflwr heintus (fel hepatitis neu HIV) er mwyn gallu cymryd camau rhag haint.
- **Does dim rhaid i chi gofrestru marwolaeth yn Llysgenhadaeth Prydain, Uchel Gomisiwn na Swyddfa Is-gennad Prydain**, ond trwy wneud hyn, fe allwch chi gael tystysgrif marwolaeth ar batrwm un y DU a bydd copi parhaol ohoni bob amser ar gael yn Saesneg o'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn y DU. Mewn rhai gwledydd, ni all Llysgenadaethau, Uchel Gomisiynau neu Swyddfeydd Is-genhadon ar hyn o bryd ddarparu tystysgrifau marwolaeth ac mae'r rhai lleol yn addas er dibenion Prydeinig. Y gwledydd dan sylw yw Awstralia, Canada, Seland Newydd, Gweriniaeth Iwerddon, De Affrica a Zimbabwe.
- Yn y DU mae yna nifer o sefydliadau sy'n gallu cefnogi a helpu teuluoedd a ffrindiau mewn profedigaeth i ddeall eu galar a dod i delerau â'u colled. Ymhlith y gwefannau defnyddiol mae **www.crusebereavementcare.org.uk** a **www.samaritans.org**.
- Mae gennym daflen o'r enw Death overseas, sydd i'w chael ar ein gwefan deithio dan 'Our publications'.

Marwolaeth dinesydd prydeinig dramor dan amgylchiadau amheus

- Yn ogystal â'r gefnogaeth y gallwn ei chynnig **os bydd rhywun yn marw o achosion naturiol, os bydd tystiolaeth o amgylchiadau amheus gallwn awgrymu'r ffordd orau o godi pryderon** gyda'r awdurdodau lleol.
- Hefyd gallwn gynnig **gwybodaeth sylfaenol am gyfundrefn yr heddlu lleol a'r gyfundrefn gyfreithiol**, gan gynnwys unrhyw gymorth cyfreithiol sydd ar gael. Gallwn ddarparu rhestrau o gyfreithwyr lleol a chyfieithwyr lleol (er na fyddwn yn talu am y naill na'r llall) a, ble bo'n bosib, manylion grwpiau cefnogi. Ym mhob achos ble bydd gennych chi, fel perthynas agosaf, bryderon am amgylchiadau'r farwolaeth, rydym yn awgrymu eich bod yn cael cyngor cyfreithiol proffesiynol.
- **Ni allwn ymchwilio i farwolaethau** ac, mewn llawer o wledydd, bydd yr awdurdodau ymchwiliol a'r llysoedd yn gwrthod ateb cwestiynau, gan gynnwys rhai gan staff consylaidd Prydain. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'n hynod bwysig ystyried penodi cyfreithiwr lleol i ofalu am eich buddiannau yn y llys a dilyn unrhyw dreial ar eich rhan.
- Fe fyddwn yn **ystyried cyflwyno achos priodol gerbron** yr awdurdodau lleol os bydd pryderon nad yw'r ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol â threfniadau lleol neu os bydd cwynion cyfiawn ynghylch gwahaniaethu yn erbyn y sawl a fu farw neu eu teulu. Fe ddylech fod yn ymwybodol bod **safon trefniadau ymchwiliol ac arbenigedd yn amrywio** llawer ledled y byd.

- Mae staff consylaidd yn Llundain ar gael i **gwrdd â chynrychiolwyr teuluol.** Fe allant gysylltu â'r perthynas agosaf os bydd yr awdurdodau ymchwiliol yn rhoi gwybod i ni am unrhyw ddatblygiadau newydd. Os bydd modd, os bydd y perthynas agosaf yn ymweld â'r wlad ble bu farw'r unigolyn yn ystod camau cynnar yr ymchwiliad a'r gwrandawiadau llys dechreuol yn ymwneud â'r farwolaeth, gall ein staff fod yno i gwrdd â nhw.
- Fel y sonnir uchod, mae yna nifer o sefydliadau yn y DU sy'n gallu helpu teuluoedd a ffrindiau mewn profedigaeth ddod i delerau â'u colled, boed y farwolaeth yn un naturiol ai peidio. Bydd rhai, fel 'Support after murder and manslaughter', yn gallu eich helpu i wynebu'r problemau a'r anawsterau sy'n codi yn dilyn marwolaeth dramor dan amgylchiadau amheus (**www.sammaboard.org.uk**).
- Mae gennym hefyd daflen o'r enw Victims of crime abroad a allai fod yn ddefnyddiol. Mae'r manylion i'w cael ar ein gwefan deithio dan 'Our publications'.

Dinasyddion prydeinig yn y ddalfa neu'r carchar dramor

Os bydd perthynas neu ffrind yn y ddalfa neu'n cael ei gadw yn y carchar dramor, gallwn roi'r gefnogaeth ganlynol.

- **Os bydd eich perthynas neu ffrind wedi gofyn i ni, fe fyddwn yn dweud wrthych cyn gynted ag y gallwn eu bod yn y ddalfa neu'n cael eu cadw yn y carchar.** Ond, er mwyn parchu eu preifatrwydd, ni fyddwn fel arfer yn rhoi unrhyw fanylion am y ddalfa na'r arestio, nac yn dweud wrthych sut i gysylltu â nhw, oni bai eu bod wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny.
- Gallwn roi gwybodaeth gyffredinol am y wlad dan sylw, amodau'r carchar a'r gyfundrefn gyfreithiol leol.
- Gallwn eich rhoi mewn cysylltiad ag elusen lles carcharorion, Prisoners Abroad (**www.prisonersabroad.org.uk** neu ffoniwch 020 7561 6820).
- Os bydd y carchar lle mae eich ffrind neu berthynas yn cael ei gadw yn cytuno, gallwn drosglwyddo unrhyw arian y byddwch eisiau ei anfon at y carcharor i brynu 'cysuron' carchar, defnyddio'r ffôn ac ati. Mewn rhai achosion gall fod tâl am y gwasanaeth hwn.
- Fe ddylech fod yn ymwybodol, mewn llawer o wledydd, y bydd unrhyw lythyrau sy'n cael eu hanfon neu eu derbyn gan y carcharor yn cael eu hagor a'u darllen gan yr awdurdodau, a gallai sgyrsiau ffôn gael eu monitro.

Pobl ar goll

- Os ydych yn y DU ac yn poeni am ddinesydd Prydeinig rydych yn meddwl sydd ar goll dramor, fe allwn ni roi gwybod i chi sut i baratoi **adroddiad person ar goll** ar gyfer eich heddlu lleol er mwyn gallu dechrau ymholiadau Interpol.
- Er **na allwn chwilio'n ymarferol** ar eich rhan, gallwn roi **gwybodaeth i chi am awdurdodau lleol priodol**. Hefyd gallwn roi manylion cysylltu unrhyw sefydliadau elusennol lleol a sefydliadau gwirfoddol sy'n arbenigo ar ddod o hyd i bobl ar goll. Os bydd yn briodol, fe allwn ni roi gwybodaeth i chi am ffederasiwn neu gymdeithas unrhyw asiantaethau ditectif preifat lleol.
- Os dymunwch, fe all staff consylaidd yn Llundain gwrdd â chynrychiolwyr teuluol, cadw mewn cysylltiad â chi a rhoi gwybod am unrhyw ddatblygiadau newydd y byddwn yn clywed amdanynt.

Dinasyddion prydeinig sy'n cael eu herwgipio neu eu dal yn wystl dramor

- Os bydd dinesydd Prydeinig yn cael ei ddal yn wystl dramor, fe fyddwn yn gwneud popeth priodol o fewn ein gallu i sicrhau ei fod ef neu hi yn cael eu rhyddhau'n ddiogel. **Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth yn y wlad honno, er mai'r llywodraeth honno fydd yn arwain wrth ddelio â'r sefyllfa**.
- **Ni fyddwn yn wneud consesiynau sylweddol i herwgipwyr. Byddai consesiynau sylweddol yn cynnwys talu pridwerth, newid polisi llywodraeth neu ryddhau carcharorion.**
- Bydd **tîm penodol yn Llundain** yn gweithredu fel gweithwyr achos ar gyfer y teulu, a bydd yn gwneud yn siwr, cyn belled ag y bob modd, bod y teulu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa. Mewn rhai achosion efallai y bydd heddlu Prydain yn penodi swyddog cyswllt teulu. Os digwydd hyn, bydd ein tîm yn gweithio'n agos gyda'r heddlu lleol perthnasol.

- Os yn briodol, fe allwn ni roi'r teulu mewn cysylltiad ag asiantaethau arbenigol eraill fel Hostage UK (**www.hostageuk.org**).
- Pan fydd gwystl Prydeinig yn cael ei ryddhau, fe fyddwn yn cwrdd ag ef neu hi ac yn eu cynorthwyo i gysylltu â'i deulu/theulu. Os bydd angen gallwn eu cynorthwyo i:
  - ddod o hyd i lety'n lleol
  - trefnu archwiliad meddygol; a
  - threfnu teithio i'r DU.

Cipio plant yn rhyngwladol

- Os ydych yn poeni am eich plentyn yn cael ei gipio dramor gan y rhiant arall neu gan berthynas, cysylltwch â'r **Adran Cipio Plant ar** 020 7008 0878 sydd gennym (neu ein switsfwrdd ar 020 7008 1500 y tu allan i oriau'r swyddfa).
- Os cafodd eich plentyn ei gipio, gallwn ddweud wrthych a yw'r wlad lle cafodd eich plentyn ei gipio wedi ymuno â **Chonfensiwn yr Hâg ar Gipio Plant yn Rhyngwladol**. Os yw wedi ymuno, gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â'r awdurdodau perthnasol yn y DU a fydd yn gallu gofyn i'r llys yn y wlad dan sylw orchymyn i'r plentyn gael ei ddychwelyd i'r DU.
- Os nad yw'r wlad yr aed â'ch plentyn iddi wedi ymuno â Chonfensiwn yr Hâg ar Gipio Plant yn Rhyngwladol, gallwn ddarparu rhestr o gyfreithwyr tramor sy'n siarad Saesneg. Gallai rhai arbenigo ar gyfraith teulu. Fodd bynnag, allwn ni ddim talu unrhyw ffioedd cyfreithiol ein hunain.
- Fe allwn ni roi **gwybodaeth ymarferol sylfaenol i chi am arferion a threfniadau cyfreithiol y wlad** lle'r aed â'ch plentyn. Gallwn roi gwybodaeth am deithio hefyd ac, os bydd angen, gallwn gynnig cyfarwyddyd ynghylch dod o hyd i lety'n lleol. Gallwn eich helpu i gysylltu â'r awdurdodau lleol a sefydliadau perthnasol pan fyddwch dramor.
- Os dymunwch, gallwn gysylltu ag Interpol yn uniongyrchol i gael cymorth i ddod o hyd i'ch plentyn. Os bydd eich plentyn yn cael ei ddarganfod, **ac os bydd y rhiant arall yn cytuno, mae'n bosib y gallwn holi am les eich plentyn ar eich rhan** os na all llywodraeth y wlad gynnig gwneud hyn. Os gwyddoch ym mha wlad y mae eich plentyn ynddi, ond nid yr union leoliad, gallwn gysylltu â'r awdurdodau perthnasol i holi pa gynnydd a wnaed i ddod o hyd iddo ef neu iddi hi.
- Fe fyddwn yn ystyried a yw'n briodol gofyn i lys tramor ymdrin ag unrhyw achos mor gyflym â phosib er lles eich plentyn. Gyda chaniatâd llys y DU, gallwn ddweud wrth y llysoedd dramor am unrhyw orchmynion llys y DU sy'n bodoli. Ond **yn aml, ni ellir gorfodi gorchmynion llys y DU dramor a rhaid gwneud cais am orchmynion tebyg yn y llysoedd lleol**.
- Gallwn ystyried ffyrdd o helpu i sefydlu dulliau cyfathrebu rhyngoch chi, y rhiant arall a'ch plentyn, a pharhau i gyfathrebu fel hyn. Mae'n bosib hefyd y bydd taid a nain/tad-cu a mam-gu yn rhan o achosion gwarchodaeth, er enghraifft, ble bydd un rhiant wedi marw. Fe ddylech fod yn ymwybodol, mewn rhai gwledydd, y gall y gyfraith leol ffafrio rhieni'r tad yn hytrach na'r fam ei hun. Mae hynny'n golygu ei bod hi hyd yn oed yn fwy **pwysig bod wedi gwneud trefniadau preswylio ffurfiol cyn rhoi caniatâd i'r plentyn adael y DU**.
- Allwn ni ddim 'achub' plentyn, cynorthwyo'n anghyfreithlon i fynd ag ef/hi o'r man y mae'n aros, neu hwyluso'n anghyfreithlon i 'w ddychwelyd i'r DU.
- Mae gennym daflen o'r enw 'Cipio plant yn rhyngwladol' (gyda mwy o wybodaeth gyffredinol) a thaflen arall ar 'Cipio plant ym Mhacistan' (gyda manylion cytundeb rhwng uwch farnwyr yn y DU a Phacistan ynglŷn â thrin yr achosion hyn). Fe gewch y manylion ar **www.fco.gov.uk/travel** o dan 'Our publications'.

Os effeithir arnoch gan ymosodiad terfysgol neu drychineb mawr

Mae prif ran y canllaw hwn yn ymwneud â'r cymorth yr ydym fel arfer yn ei ddarparu i ddinasyddion Prydeinig sydd mewn anhawster dramor. Mae'r adran hon yn delio â digwyddiadau annisgwyl y gallai lefel eithriadol o gefnogaeth iddynt fod yn briodol.

Ymosodiadau gan derfysgwyr

Rydym wedi sefydlu, ac yn adolygu'n rheolaidd, yr hyn a elwir yn Fesurau Cymorth Eithriadol ar gyfer **dioddefwyr ymosodiadau gan derfysgwyr dramo**r, a'u teuluoedd, i roi ystyriaeth i natur eithriadol terfysgaeth, ble bydd unigolion yn dioddef ar hap yn sgil ymosodiadau ar gymdeithas yn gyffredinol. Bydd y cymorth sydd ar gael a'r manylion **yn amrywio yn ôl amgylchiadau penodol** pob sefyllfa, a gallwn dim ond ei ddarparu fel y dewis olaf os na chaiff y costau eu cynnwys mewn polisiau yswiriant sy'n bodoli'n barod, cynlluniau cyflogwyr, llywodraeth y wlad berthnasol neu ffynonellau eraill. Ni fyddem yn darparu'r cymorth ariannol hwn os bydd dioddefwyr wedi teithio yn groes i'n cyngor ynghylch teithio, neu os nad oeddent wedi trefnu yswiriant teithio o gwbl.

Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, fe allai'r gefnogaeth y byddem yn ystyried ei chynnig, yn ychwanegol at ein cefnogaeth arferol, gynnwys, er enghraifft:

- cludo meddygol ar gyfer pobl wedi'u niweidio neu gludo pobl mewn perygl (sylwch nad yw hyn o anghenraid yn golygu cludo i'r DU ond i le diogel yn y rhanbarth);
- talu costau meddygol uniongyrchol;
- cludo cyrff neu weddillion yn ôl gartref;
- talu'r costau i ddychwelyd bagiau'r bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu;
- teithio i ddau aelod o deulu'r dioddefwr i safle'r ymosodiad; a
- llety ac yswiriant teithio.

Trychinebau mawr

Os bydd trychineb mawr yn digwydd, byddwn yn ystyried a fyddwn yn cynnig cymorth eithriadol i'r dinasyddion Prydeinig hynny sy'n dioddef yn uniongyrchol.

Er enghraifft, yn dilyn y **tswnami** yn ne Asia ym mis Rhagfyr 2004, a **Chorwynt Katrina** yn America ym mis Awst 2005, fe wnaethom ni gynnig cymorth eithriadol i ddioddefwyr Prydeinig a'u teuluoedd.

Yn dilyn unrhyw drychinebau mawr yn y dyfodol, **bydd yr Ysgrifennydd Tramor yn gwneud penderfyniad cyn gynted â phosib ynghylch a oes angen i ni gynnig cymorth eithriadol a beth ddylai'r cymorth hwnnw fod**, gan ystyried amgylchiadau'r trychineb a'r adnoddau sydd ar gael. Ymhlith y ffactorau y gall yr Ysgrifennydd Tramor eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwnnw y mae, er enghraifft, a yw'r gwasanaethau sylfaenol lleol, megis cludiant ac yn y blaen wedi methu, gan rwystro dinasyddion Prydeinig rhag cael cefnogaeth yn uniongyrchol, neu a oes niferoedd mawr o ddinasyddion Prydeinig wedi colli pob math o ddogfennau adnabod, dogfennau teithio, polisïau yswiriant, eiddo ac yn y blaen o ganlyniad i'r trychineb.

Aflonyddwch sifil

Mae gennym fesurau ar wahân hefyd mewn **gwledydd lle'r ystyrir bod risg sylweddol o aflonyddwch sifil**. Fe ddylech wirio ein cyngor ynghylch teithio cyn dechrau ar eich taith (gweler **www.fco.gov.uk/travel**). Os ydych yn byw neu'n teithio dramor dylech hefyd gofrestru a diweddaru eich manylion ar ein system cofrestru ar-lein. 'LOCATE', yn **www.fco.gov.uk**. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gadarnhau'n gyflym a ydych yn ddiogel, gan ganiatau i ni ganolbwyntio ar gynnig cefnogaeth i'r bobl sydd mewn mwyaf o angen yn ystod unrhyw aflonyddwch sifil. Os oes aflonyddwch sifil yn y wlad, dilynwch gyngor gan Lysgenhadaeth, Uchel Gomisiwn neu Swyddfa Is-gennad Prydain trwy negeseuon cyhoeddus (trwy negeseuon testun, e-bost, World Service y BBC), neu drwy'r rhwydwaith o wardeniaid sy'n gweithio ar ein rhan ledled y wlad. Os na fyddwch yn dilyn ein cyngor i adael gwlad yn ystod aflonyddwch sifil neu gyfnod arall o argyfwng, ni allwn warantu y byddwn yn gallu eich cynorthwyo i adael y wlad yn ddiweddarach. **Fe ddylech fod yn ymwybodol ei bod hi'n bosib na fydd eich yswiriant yn ddilys bellach os na fyddwch yn dilyn ein cyngor**.

Ffliw adar a ffliw pandemig

Mae pryder rhyngwladol y gallai achosion o ffliw adar sbarduno pandemig ffliw dynol drwy'r byd ar ryw adeg yn y dyfodol. Os bydd ffliw pandemig dynol yn digwydd, mae'n debygol y bydd y firws yn ymledu'n gyflym iawn, ac o bosibl yn effeithio ar lawer o wledydd.

Rydym yn gweithio gyda'r Adran Iechyd i baratoi ar gyfer pandemig posibl. Rydym wedi sefydlu cynllun argyfwng ar gyfer pob cenhadaeth ddiplomataidd neu gonsylaidd Prydeinig dramor, fel y gallwn geisio cynnal cefnogaeth gonsylaidd sylfaenol ar gyfer dinasyddion Prydeinig sy'n byw neu'n teithio dramor yn ystod pandemig. Bydd Llysgenadaethau, Uwch Gomisiynau a Swyddfeydd Is-gennad Prydeinig dramor dim ond yn gallu darparu gwybodaeth ar ba foddion neu ofal iechyd lleol sydd ar gael. Ni fyddant yn gallu darparu Tamiflu (cyffur i drin ffliw) na thriniaeth feddygol. O ganlyniad, mae angen i ddinasyddion Prydeinig dramor gymryd cyfrifoldeb personol am eu hiechyd, gan ymgynghori gyda chyflogwyr os bydd angen.

Ni fyddwn chwaith mewn sefyllfa i gynnig cludiant yn ôl i'r DU ar gyfer dinasyddion Prydeinig yn ystod pandemig, yn bennaf oherwydd y niferoedd mawr o bobl sy'n gysylltiedig â'r anawsterau o ran gwneud hynny. Yn yr achosion gwaethaf efallai y bydd yn rhaid i ni gau rhai cenadaethau diplomataidd neu gonsylaidd dros dro.

I gael rhagor o wybodaeth am ffliw adar a ffliw pandemig a beth allwch chi ei wneud os bydd pandemig, ac am wybodaeth ynglŷn â pha gefnogaeth y gallwn ei darparu, gweler ein gwefan yn **www.fco.gov.uk/travel**. Gallwch hefyd fynd i wefan yr Adran Iechyd yn **www.dh.gov.uk/pandemicflu**.

Ar gyfer teulu a ffrindiau dioddefwyr

Gyda'r holl fathau hyn o drychinebau mawr, rydym yn anelu at ddarparu **cyswllt dibynadwy gyda'r dioddefwyr ac aelodau'r teulu** a fydd yn cysylltu â ni. Fel arfer fe fyddwn yn darparu rhifau ffôn arbennig. Gallwn ddarparu rhagor o linellau ffôn yn syth ar ôl trychineb, ac mae gennym gytundeb gyda heddlu'r DU i ddefnyddio eu canolfannau galwadau os bydd angen.

Ar ôl cysylltu y tro cyntaf, fe wnawn ni geisio cadw mewn cysylltiad â'r aelod mwyaf priodol o'r teulu (y perthynas agosaf fel arfer). Rydym yn sylweddoli y gall diffyg gwybodaeth achosi mwy o bryder felly byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth drwy gydol trychineb o'r fath. Ond, ni fyddwn yn trosglwyddo gwybodaeth oni bai ein bod yn hyderus bod y ffeithiau yn ddibynadwy – mae unrhyw beth arall yn debygol o achosi dryswch a mwy o ofid. Mae defnyddio ein system gofrestru ar-lein, 'LOCATE', yn **www.fco.gov.uk**, yn ein cynorthwyo i gael gwybodaeth ddibynadwy.

Os ydych yn ymwybodol bod perthynas neu ffrind mewn ardal lle digwyddodd trychineb, mae'n bosib hefyd y byddwch eisiau ystyried yr **awgrymiadau canlynol gan deuluoedd** dioddefwyr trychineb yn y gorffennol.

- Ceisiwch **ddarganfod union leoliad** eich perthynas neu ffrind, er enghraifft, trwy edrych ar fanylion eu taith a cheisio cysylltu â nhw ar rifau'r gwesty a'u ffôn symudol.
- **Enwebwch un aelod o'r teulu** i fod yn gyswllt ar gyfer unrhyw awdurdodau, gan gynnwys cysylltu â'n llinell gymorth. Cytunwch ar restr o wybodaeth berthnasol am eich perthynas neu ffrind a chadw'r wybodaeth wrth law. Dylai hyn gynnwys eu henw llawn a'u dyddiad geni, rhif eu pasport, manylion teithio (cwmni teithio, yswiriant teithio) ac enwau unrhyw un arall sy'n teithio gyda nhw.
- **Meddyliwch yn ofalus cyn teithio i'r ardal dan sylw**, yn enwedig os yw'r trychineb wedi effeithio ar wasanaethau lleol, cludiant ac ati. Oherwydd diffyg cludiant neu lety, mae'n bosib y bydd arnoch angen help eich hun yn y diwedd. Mae pob trychineb yn wahanol, ond mewn rhai achosion fe allwch chi gyflawni mwy trwy aros yn y DU a chysylltu â'r FCO a sefydliadau eraill. Trafodwch gyda phobl a sefydliadau eraill cyn gwneud penderfyniad. Fe all gwefannau fel **www.disasteraction.org.uk** fod yn ddefnyddiol.

Gofal ar ôl dychwelyd i'r DU

Fe fyddwn yn rhoi cefnogaeth i ddinasyddion Prydeinig dramor. Ond yn aml, bydd ar ddioddefwyr trychinebau mawr dramor, neu eu teuluoedd, angen rhagor o help ar ôl iddynt ddychwelyd i'r DU. **Bydd yr Uned Cymorth Dyngarol yn yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon** (DCMS) yn gweithio gyda'r asiantaethau a gwasanaethau perthnasol i helpu dioddefwyr gael yr ôl-ofal angenrheidiol. I gael gwybodaeth am ôl-ofal DCMS, gweler **www.direct.gov.uk/helpafterincident**. Ni allwn ddarparu iawndal i bobl yr effeithiwyd arnynt gan ymosodiad terfysgol neu drychineb mawr.

Darparu'r gefnogaeth orau a allwn

Ein hamcan strategol adrannol: cefnogi dinasyddion Prydeinig dramor

Rydym wedi cytuno gyda Thrysorlys EM ar bedwar prif faes i'w dargedu ar gyfer darparu cefnogaeth effeithiol ac effeithlon i helpu dinasyddion Prydeinig mewn cyfyngder. Mae'r Strategaeth Gonsylaidd yn strwythuro ein gwaith ar y pedwar maes canlynol ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 2008-2009 a 2010-2011.

1 Ansawdd cymorth
2 Proffesiynoldeb ein staff
3 Darpariaeth gyson
4 Effeithlonrwydd busnes

Rydym yn asesu ein perfformiad ym mhob maes gan ddefnyddio ystod eang o ddangosyddion, yn cynnwys y canlynol:

- Byddwn yn cysylltu â 99% o bobl sydd yn yr ysbyty o fewn 24 awr cael gwybod amdanynt.
- Byddwn yn cysylltu â 98% o bobl sydd yn y ddalfa o fewn 24 awr i gael gwybod am eu harestiad, ac yna ymweld â hwy cyn gynted â phosibl os ydynt yn dymuno.
- Mae 90% o'r bobl eraill yr ydym yn eu cynorthwyo yn fodlon gyda'r cymorth a roddwn iddynt.

Mae ein perfformiad yn erbyn ein holl ddangosyddion perfformiad wedi ei gynnwys yn ein hadroddiadau adrannol blynyddol. Unwaith y byddwn wedi cyhoeddi'r adroddiadau, byddant ar gael ar ein gwefan yn **www.fco.gov.uk**.

Bob blwyddyn byddwn yn cynnal ymarferiad samplo penodol ac ymgynghori gydag ystod eang o bobl sydd wedi derbyn cymorth gennym. Mae hyn yn caniatáu i ni ganfod y meysydd hynny lle gallwn wella. Rhaid i'n hisadrannau consylaidd dramor hefyd gynnal arolygon rheolaidd ynglŷn ag ansawdd y cymorth a ddarparant.

Rhoi sylwadau i ni

Byddwn yn croesawu eich barn am y gefnogaeth rydym yn ei darparu. Bydd eich sylwadau yn ein helpu i weld yr hyn a wnawn yn dda a'r hyn y gallem ei wneud yn well. Os bydd gennych unrhyw sylwadau am y gefnogaeth a gawsoch, ysgrifennwch at y cyfeiriad isod.

Feedback
Strategy, Communications and Training Group
Consular Directorate
Foreign and Commonwealth Office
Old Admiralty Building
Spring Gardens
London
SW1A 2PA

Ffôn: 020 7008 1500
Ffacs: 020 7008 0152
E-bost: feedback.consular.services@fco.gov.uk

Trefn gwynion swyddogol

Os na fyddwch yn fodlon a'ch bod eisiau gwneud cwyn swyddogol, ysgrifennwch at Gyfarwyddwr Gwasanaethau Consylaidd yr FCO yn y cyfeiriad isod.

Consular Directorate
Foreign and Commonwealth Office
Old Admiralty Building
Spring Gardens
London
SW1A 2PA

Ffôn: 020 7008 1500
Ffacs: 020 7008 0152
E-bost: complaint.consular.services@fco.gov.uk

- Byddwn yn ymchwilio'n llawn i'ch cwyn. Bydd y cyfarwyddwr yn gweld pob cwyn. Bydd ef neu hi yn gofyn i'r ymchwiliad gael ei gynnal gan aelod o staff sydd heb gysylltiad uniongyrchol â'ch achos na'ch cwyn. Fel arfer bydd yr unigolyn hwn mewn safle uwch i unrhyw swyddog y gwnaed cwyn yn ei erbyn.
- Fe wnawn ein gorau glas i roi ateb llawn i chi o fewn 20 diwrnod gwaith. Os na allwn roi ateb llawn i chi o fewn yr amser hwn, fe wnawn ni ddweud wrthych pryd y disgwyliwn wneud hynny.
- Byddwn yn cofnodi ac archwilio cwynion, a defnyddio'r wybodaeth i helpu i sicrhau ein bod yn cynnig y cymorth a'r gefnogaeth orau un.
- Os na fyddwch yn fodlon â'r ymateb a gewch, gallwch ysgrifennu'n uniongyrchol un ai at Weinidog yn y Swyddfa Dramor neu eich Aelod Seneddol (AS), gan ofyn iddynt godi eich cwyn gyda ni.
- Os byddwch wedi gwneud eich cwyn trwy eich Aelod Seneddol a'ch bod yn dal yn anfodlon â'r ateb a gawsoch, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Seneddol (a elwir hefyd yn Gomisiynydd Seneddol dros Weinyddu). Fel arfer, ni fydd yr Ombwdsmon ond yn ystyried achosion sy'n ymwneud â 'chamweinyddu' (hynny yw, gweinyddu sâl neu gymhwyso rheolau'n anghywir). Mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld ar wefan yr Ombwdsmon Seneddol yn **www.ombudsman.org.uk**.

Atodiad

Categorïau dinasyddion prydeinig

Mae'r rhan fwyaf o ddinasyddion (nationals) Prydeinig yn ddinasyddion (citizens) Prydeinig. Mae gan bob dinesydd (citizens) Prydeinig hawl i fyw yn y Deyrnas Unedig, ac maent hefyd yn ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

Fodd bynnag, mae yna gategorïau eraill o bobl sy'n dod dan y teitl 'dinesydd Prydeinig'. Gall pob un dderbyn y gefnogaeth a ddisgrifir yn y canllaw hwn. Sef:

Dinasyddion (citizens) Tiriogaethau Tramor Prydeinig (BOTC) – (dinasyddion (citizens) Tiriogaethau Dibynnol Prydain yn flaenorol). Mae gan y rhan fwyaf hawl i gael dinasyddiaeth (citizenship) Brydeinig (gan gynnwys hawl i fyw yn y DU) ers cyflwyno Deddf Tiriogaethau Tramor Prydeinig 2001. Yr eithriadau yw'r rhai â chysylltiad â safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia yng Nghyprus.

Dinasyddion (citizens) tramor Prydeinig (BOC) – yn gyffredinol, fe gafodd BOC ddinasyddiaeth Brydeinig yn wreiddiol trwy gysylltiad â chyn diriogaeth Brydeinig a drodd yn annibynnol ers hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd BOC yn gymwys i fod yn ddinesydd o'r wlad annibynnol newydd, felly roeddynt yn cadw dinasyddiaeth Brydeinig yn dilyn annibyniaeth.

Dinasyddion Prydeinig (tramor) (BN(O)) sef pobl a arferai fod yn ddinasyddion (citizens) Tiriogaethau Dibynnol Prydain a gafodd eu statws yn sgil cysylltiad â Hong Kong. Caniatawyd iddynt gofrestru fel BN(O) cyn i Hong Kong ddychwelyd i sofraniaeth Tsieina ar 1 Gorffennaf 1997, a chadw statws BN(O) ar ôl hynny.

Mae **Deiliaid (subjects) Prydeinig (BS)** yn disgyn i ddau gategori – pobl a oedd yn Brydeinig trwy gysylltiad ag Iwerddon pan oedd hi'n rhan o'r DU (cyn 1949), a phobl yr oedd eu hawliad gwreiddiol i ddinasyddiaeth Brydeinig trwy gysylltiad â'r hen India Brydeinig. Roedd deddfau dinasyddiaeth (citizenship) India a Phacistan yn fwy caeth na'r disgwyl, a chanlyniad hynny oedd fod llawer o bobl yr oedd disgwyl iddynt droi'n Indiaid neu'n Bacistaniaid wedi methu bod yn gymwys. Roedd y bobl hyn yn cadw eu statws deiliaid Prydeinig (dros dro oedd y bwriad), nes iddynt gael dinasyddiaeth (citizenship) arall. Mae deiliaid Prydeinig sydd â chysylltiad ag Iwerddon yn ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

Mae statws **Person Prydeinig a ddiogelir (BPP)** yn debyg i BOC, heblaw bod eu cysylltiad â chyn Brotectoriaeth Brydeinig, Gwladwriaeth Warchodedig neu Diriogaeth Ymddiriedol. Nid yw'n ddinasyddiaeth (citizenship), fel y cyfryw, ac nid yw BPP yn ddinasyddion (citizens) y Gymanwlad, ond maent yn ddinasyddion Prydeinig ac felly gallant dderbyn ein cymorth a'n cefnogaeth.

Foreign &
Commonwealth
Office

Rhoi sylwadau i ni

Os bydd angen i chi gysylltu â Swyddfa Is-gennad Prydain dramor, fe fyddem yn falch o gael unrhyw sylwadau ar y gefnogaeth a gawsoch. Anfonwch e-bost at y cyfeiriad canlynol: feedback.consular.services@fco.gov.uk

FCO TRAVEL ADVICE
know before you go
fco.gov.uk/travel

Crystal Mark 13090
Clarity approved by Plain English Campaign

www.fco.gov.uk/travel